
PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 420 | Mehefin 2019



Tad balch t.8




Stuart yn ymddeol t.4

Medal i Seren t.9





# Codi cwpan

**Tîm dan 19 oed Bow Street**

Mae'r tîm wedi cael tymor arbennig eleni, o dan ofal Siôn Manley a Rhys Huw Evans, gan ddod yn ail yn y gynghrair. Mewn gêm gofiadwy ar gae Clwb Llanidloes, curodd y tîm Machynlleth o 4 gôl i 1, ac ennill cwpan Cynghrair Canolbarth Cymru i'r timau iau, wedi'i noddi gan Glwb Pêl-droed Llanidloes. Sgoriwyd y goliau gan Shaun Jones, Josh Jones, Dion Davies a Siencyn Jones.



Tîm dan 8 Bow Street wedi mwynhau twrnament Llanybydder Clwb. Pêl-droed Llanybydder ar Fai 19 a chyrraedd y rownd derfynol. Da iawn fechgyn!

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Edwards**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg,
Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin** Deunydd i law: Medi 6 Dyddiad cyhoeddi: Medi 18

**MEHEFIN 19** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**MEHEFIN 19** Nos Fercher Taith gerdded hamddenol o ryw 45 munud dan ofal tywysydd lleol. Cychwyn o Neuadd Rhydypennau, 5.30pm a barbeciw am 6.30 pm yn siop y cigydd. £7 y pen. Elw at Eisteddfod 2020, apêl Tirymynach. Croeso i bawb o bob oed! Manylion pellach: Anwen, 07976049774

**MEHEFIN 20** Nos Iau O na fyddai'n haf o hyd Ysgol Penrhyn-coch yn cyflwyno cyngerdd haf yn Neuadd y Penrhyn am 6.30 Tocyn £5

**MEHEFIN 21** Nos Wener BBQ Ffrindiau Cartref Tregerddan yn y Cartref am 6.30 o'r gloch. Croeso i bawb.

**MEHEFIN 22** Nos Sadwrn Hwyrddydd haf ; Mochyn Rhost a noson werin awyr agored ar Fferm Ffwrnais trwy garedigrwydd John a Non Jenkins. Bar, Diodydd poeth/ysgafn + Hufen ia! Mynediad trwy docyn - oedolion £10 | Plant Ysgol Gynradd £3 ( Pris yn cynnwys bwyd) rhwng 6.00 a 9.00 Apel ward Ceulanamaesmawr i Eisteddfod 2020

**MEHEFIN 28** Nos Wener Garddwest Ysgol Rhydypennau

**MEHEFIN 28** Nos Wener Gwin, caws a chân; adloniant: Côr Merched Bro'r Mwyn ac artistiaid lleol. Llywydd: Mrs Beatrice Lewis. am 7.00 yn Eglwys St Pedr, Elerch. Mynediad: £8.00

**MEHEFIN 29** Dydd Sadwrn Parti PATRASA yn y Parc, Penrhyn-coch

**MEHEFIN 29** Dydd Sadwrn Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn Aberteifi

**MEHEFIN 29** Nos Sadwrn C.Ff.I. Trisant. Cyngerdd mawreddog dathlu 50 mlynedd ar y cyd â Chyngerdd Llywydd y Sir ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 7.30.

**MEHEFIN 29** Prynhawn Sadwrn Te hufen a mefus Eglwys Sant Ioan rhwng 3.00 a 5.00.

**MEHEFIN 30** Bore Sul Gŵyl yr ysgolion Sul am 11.15 yn y Morlan

**MEHEFIN 30** Pnawn Sul Datganiad organ. Meirion Wyn Jones yn chwarae cerddoriaeth gan gyfansoddwyr sydd â chysylltiad â'r organ Rothwell hyfryd sydd yng Nghapel Bethel, Aberystwyth gan gynnwys Walford Davies a William Mathias. Am 2.30. Rhan o Ŵyl Gregynog. Oedolion: £10 Pobl ifanc: £5

**GORFFENNAF 2** Nos Fawrth Noson Gymdeithasol a BBQ Ysgol Penweddig am 18:30 - Croeso i bawb.

**GORFFENNAF 5** Nos Wener Noson Goffi Capel Noddfa am 7.00

**GORFFENNAF 5** Nos Wener Gŵyl Aber

**GORFFENNAF 6** Pnawn Sadwrn Te Mefus yn Eglwys Llandre o 3.00 – 5.00

**GORFFENNAF 13-14** Dyddiau Sadwrn a Sul 17eg Pencampwriaeth Bêl-droed Ieuenctid Bow Street

**GORFFENNAF 19** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau

**AWST 2** Dydd Gwener Carnifal y Borth

**AWST 3** Dydd Sadwrn Sioe Capel Bangor

**AWST 17** Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch. Llywyddion y Dydd: Aled, Caryl a'r teulu Hafodau,Goginan (Pen-cwm gynt)

**MEDI 3** Ysgolion Ceredigion yn ailagor

**MEDI 7** Dydd Sadwrn Sioe Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau

**MEDI 9** Nos Lun Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00

**MEDI 27-29** Gŵyl Mabsant Llanfihangel Genau'r-genau'r Glyn. Penwythnos o ddigwyddiadau i godi arian i Eisteddfod Ceredigion 2020.
Nos Wener – Stomp yn Nhafarn Rhydypennau.
Dydd Sadwrn – Taith Gerdded am 2.00 ac yna adloniant
Nos Sul – cyngerdd gan gorau ac unigolion talentog y fro yn yr eglwys yn Llandre.
Mwy o fanylion i ddilyn. Dewch yn llu.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mai 2019

**£25** (Rhif 243 ) Linda Jones, Y Berllan, Llandre
**£15** (Rhif 65) Marian E Jenkins, Eryl, Llandre
**£10** (Rhif 69) Dilwyn Phillips, 4 Dolystwyth, Llanilar

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mai 15

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol nos Iau Mai 16 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Aled Lewis yn y gadair. Rhoddodd grynodeb o waith y Cyngor Cymuned dros y flwyddyn a diolchodd i'r cynghorwyr am eu cymorth yn ystod y flwyddyn. Cafwyd hefyd grynodeb o waith y Cyngor Sir yn y gymuned gan y Cynghorydd Rhodri Davies a diolchodd ef i'r cynghorwyr am eu cymorth dros y flwyddyn. Etholwyd y Cynghorydd Richard Edwards yn gadeirydd a'r Cynghorydd Jim Palmer yn is-gadeirydd.

Wedi'r Cyfarfod Blynyddol cynhaliwyd y cyfarfod misol efo'r Cynghorydd Richard Edwards yn cymryd y gadair. Mae 'r fainc nawr yn ei lle yn Pant y Crug ac mae'r lleoliad yn cynnig golygfa fendigedig o Ddyffryn Rheidol i'r sawl sydd yn dewis aros ac eistedd yno.

Adroddodd y clerc fod cyfrifon 2018/2019 wedi eu harchwilio yn fewnol ac eglurwyd y cyfrifon i'r Cynghorwyr. Cafodd y cyfrifon eu derbyn.

Etholwyd y Cynghorwyr Richard Edwards a Jean Watson i gynrychioli y Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Rhanbarthol Ceredigion

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r tyllau sydd yn y fynedfa i Stad Pen-llwyn a hefyd y coed sydd yn goleddu drosto ar y llwybr rhwng Tynllidiart a'r Stad; rhain i'w hadrodd i'r Cyngor Sir.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau Mehefin 20fed am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

## 30 MLYNEDD YN OL



Tîm rygbi Ysgol Penrhyn-coch a enillodd y cwpan yn y gystadleuaeth rygbi saith bob ochr i ysgolion bach. Llun: Hugh Jones (o *Dincer* Mehefin 1989) Rhes gefn o'r chwith. Rhys Davies, Jason Davies, Alun Price, James Scurlock, Nicholas Hughes a Simon Rhys Jones. Rhes flaen o'r chwith- Sion James, Adrian Paddock, Rhys Dobson, Robert Evans , Alastair Maltman. Diolch i Rhys Dobson am yr enwau.

Elw gwerthiant *Llinynnau*

Annwyl Olygydd,
Pan gyhoeddais fy nofel *Llinynnau* flwyddyn yn ôl gydag addewid y byddai'r elw yn mynd tuag at elusennau sy'n helpu ffoaduriaid rhyfel, fe addewais i hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r elw a'r rhoddion yn rhifyn mis Mehefin eleni o'r Tincer.
Mae'n dda gennyf felly ddweud bod 490 o'r 500 a argraffwyd wedi eu gwerthu ac fy mod bellach wedi cyfrannu £1,500 yr un i'r *International Rescue Committee* a *Medecins Sans Frontieres*, a £1,119 at Aberaid.
Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y fenter.
**Llinos Dafis**
Cedrwydd, Llandre

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

Cae Sion Whaff

Annwyl Olygydd
Diolch i Angharad Fychan am ei herthygl diddorol am hanes Sion Whaff yn rhifyn Mai o'r Tincer. Yn ôl traddodiad yn ein teulu ni, ymosododd Sion Whaff ar fy hen, hen dad-cu, sef David Edwards, wrth ddychwelyd adref un noson rhwng ben lôn y Fagwyr a Dolgau. Porthmon a ffermwr oedd David Edwards, ac o'r herwydd byddai ganddo swm go lew o arian yn ei feddiant.

Bu tipyn o ymrafael rhyngddynt a gollyngwyd ergyd o wn Sion Whaff, efallai nad o fwriad, a saethwyd cynffon y ceffyl i ffwrdd. Dihangodd y ceffyl gyda'r marchog ar ei gefn a syrthiodd y ceffyl yn farw wrth ddrws y stabl yn Caergywydd. Fel y dywedais o'r blaen, petai'r ergyd yn syth gan ladd y porthmon, fyddwn i a llawer iawn o'r teuluoedd ddim o gwmpas heddiw!

Un gair arall. Clywais ddweud pan yn grwt am ddau fachgen ifanc o'r ardal oedd wedi gorfod ymfudo i'r Sowth iweithio o dan ddaear, ac ar un noson rewllyd yn edrych i fyny at y sêr wrth ddisgyn i'r pwll, ac un yn dweud wrth y llall – "Dew ma siŵr o fod sgwarnog ar gae Sion Whaff heno". Dyna gyfeiriad cynnil am y cyfnod.

**Vernon Jones**

# Y BORTH

**Ar Yr Ymyl' : Amgueddfa ac Oriel Rhaeadr**

Bydd arddangosfa lwyddiannus Celfyddydau'r Borth 'Ar yrYmyl yn symud o Ganolfan Celfyddydau Aberystwyth i Amgueddfa ac Oriel Rhaeadr yng Ngorffennaf.

Mae Ar Yr Ymyl fel y soniwyd yn Nhincer Mai yn arddangos gwaith newydd neu waith nas gwelwyd o'r blaen gan aelodau'r grŵp.

Yn drist, cyn i'r arddangosfa gau yng Nghanolfan y Celfyddydau, bu farw curadur Celf y Borth – Gwenllian Ashdown, ar ôl gwaeledd byr. Byddwn yn colli'n fawr ei brwdfrydedd, arbenigedd a doethineb. Roedd wedi dweud "Mae'r Borth yn bentref hyll, hardd, lle rhyfeddol a dirgel ac mae'r gwaith yn adlewyrchu hyn. Mae rhai yn dianc i diroedd arall, eraill yn paentio realiti byw ar draeth storm ond mae ganddynt i gyd berthynas i'w pentref a'i olwg ar fywyd hynod / idiosyncratig"

Mae'n cynnwys gwaith gan artistiaid gweledol Celfyddydau'r Borth ac yn cynnwys gwsith Gabrielle Adamson, Bodge, Molly Brown, Lynne Dickens, Stuart Evans, Sadie Everade, Linda Henry, Neil Johnson, Peter Jones, Becky Knight, Sue Lee, Martine Ormerod, Ruth Packham, Marie Pierre, Sarah Pugh, Eve Smith a Jenny Williamson. Gellir gweld yr arddangosfa yn Rhaeadr rhwng Gorffennaf 6ed ac Awst 3ydd

**Gwenllian Ashdown**

Trist oedd clywed am farwolaeth Gwenllian Ashdown fu farw yn Ysbyty Bron-glais dydd Gwener 31 Mai yn 77 oed.

Fe'i ganwyd yn Llangeitho a'i magu yng Nghapel Bangor a Dolau gan fynychu



Ysgol Ramadeg Ardwyn. Roedd yn un o dri o blant y diweddar Alwyn a Grace Jones – bu ei thad yn Swyddog Addysg Rhanbarthol yn Aberystwyth yn ystod blynyddoedd cynnar Dyfed a bydd rhai yn ei gofio fel Mr Gwyther yn Pobol y Cwm slawer dydd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i hunig ferch Ceri Ashley - Athro Archaeoleg yn Pretoria tan y llynedd a nawr yn gweithio yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain. Hefyd â'i brawd David sydd yn byw yng Nghernyw, a'r brawd arall Huw yn Hendy-gwyn ar Dáf.

Hyfforddodd fel athrawes a bu'n dysgu arlunio yng Ngholeg Caerfyrddin a Phrifysgol Warwick, Coventry. Bu hefyd yn dysgu yn Uganda yn y 1960au a Nigeria yn y 1970au. Bu'n ddirprwy guradur Amgueddfa Ceredigion o 1992 i 2010 ac yn dilyn ei hymddeoliad oddi yno fe barhaodd i weithio gan guradu arddangosfeydd yn yr ardal. Bu'n curadu arddangosfeydd Cwiltiau Cymreig Jen Jones yn Llambed, ac arddangosfeydd artistiaid y Borth y gwelwyd un yng Nghanolfan y Celfyddydau'n ddiweddar

Bu'n byw yn Aberaeron pan oedd Ceri'n ifanc, ond dychwelodd i Aberystwyth ac yna i'r Borth rhyw ddegawd yn ôl. Roedd ei dylanwad yn y byd celf Cymreig yn fawr ac un o'r pethau pwysicaf a wnaeth oedd sicrhau presenoldeb Cymru yn y Biennale yn Venice rhyw ddegawd yn ôl. (Cyn hynny roedd Cymru'n dod dan adain Pafiliwn 'Prydain Fawr' yn yr ŵyl.) Ymwelai yn gyson â Venice ac roedd newydd ddychwelyd.

Roedd hi'n enwog am ei hoffter o'r lliw glas- ei thŷ y tu fewn a'r tu fas yn las, ei dillad, llestri ac roedd ganddi unwaith oergell las! Hollol naturiol felly oedd fod pawb yn gwisgo glas yn ei hangladd.....

Roedd hefyd yn gynghorydd cymuned yn y Borth. Bydd y Borth yn dlotach o golli ei phresenoldeb a'i hymroddiad i agweddau o fywyd y pentref.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Michaela ac Alex Garth-Campbell, Stryd Fawr y Borth, ar enedigaeth Millie ddechrau Mehefin. Daw Alex yn wreiddiol o Nicaragua, ond bellach mae wedi hen ymgartrefu yn ardal y *Tincer.* Llongyfarchiadau hefyd i Shan a Gerald Bailey ar ddod yn fam-gu a thad-cu, a Nia Griffiths, Caegwylan, ar ddod yn hen fam-gu.

**Ymddeol ar ôl 43 mlynedd yn Amgueddfa Ceredigion**

Ar 28 Mehefin, bydd Stuart Evans yn ymddeol o Amgueddfa Ceredigion ar ôl 43 mlynedd. Ymunodd Stuart â'r amgueddfa fel cynorthwyydd yn 1976, pan oedd yr amgueddfa wedi'i lleoli ar Stryd yr Efail, ond daeth yn dechnegydd ac yn ddylunydd



arddangosfeydd yn fuan iawn. Dechreuodd ei yrfa â'r amgueddfa dan gyfarwyddyd Dr John Owen, y Curadur cyntaf, ac mae gan Stuart atgofion melys o deithio o amgylch Ceredigion gyda Dr Owen yn ei mini clubman, gan ddychwelyd weithiau gydag eitemau anferth ar do'r cerbyd.

Tyfodd yr amgueddfa'n rhy fawr i'r tŷ teras ar Stryd yr Efail, a bu Stuart â rhan allweddol wrth symud yr amgueddfa i'r Coliseum ym 1982. Flwyddyn yn ddiweddarach, cyfarfu Stuart â'r Tywysog Charles pan ymwelodd â'r Coliseum ar ôl ei throsi'n amgueddfa.

Dywedodd Stuart Evans, "Mae'n yrfa sydd wedi bod yn llawn cyfleoedd amrywiol a chymaint o bobl ddiddorol. Ni fuaswn wedi gallu dyfeisio gwell swydd i mi. Pan roedd pobl yn gofyn i mi beth hoffwn ei wneud pan oeddwn yn iau, ni feddyliais y buaswn yn gweithio mewn theatr Edwardaidd, dafliad carreg i ffwrdd o draeth prydferth yng Nghanolbarth Cymru, yn gofalu am wrthrychau hanesyddol hynod ddiddorol. Mae deugain mlynedd wedi hedfan heibio."

Bu sawl uchafbwynt yng ngyrfa Stuart, gan gynnwys curadu'r arddangosfeydd parhaol, diogelu nifer o'r arddangosion, gan gynnwys tollfyrddau harbwr Ceinewydd, dylunio cynnyrch sydd wedi ennill gwobrau ar gyfer siop yr amgueddfa, a gweithio gyda grwpiau cymunedol er mwyn ehangu effaith yr amgueddfa.

Dywedodd Carrie Canham, y Curadur presennol, "Rydym ni gyd yn mynd i weld eisiau Stuart yn fawr iawn; bron ei fod yn rhan o'r casgliad am ei fod wedi bod yma cyhyd! Mae ganddo wybodaeth anhygoel am y gwrthrychau ac mae wedi cyfrannu llawer tuag at yr arddangosfeydd, gofalu am y gwrthrychau, addysg, allgymorth – yn wir, ni allaf feddwl am unrhyw agwedd ar yr amgueddfa nad yw ef wedi'i chefnogi gyda'i arbenigedd, ei sgiliau, a'i artistiaeth. Yn ogystal, mae ganddo'r straeon mwyaf doniol i'w hadrodd yn yr ystafell de!"

# Cyngor Cymuned Tirymynach

**Ymddiheuriadau – dylai y darn cyntaf yma fod wedi ymddangos y mis diwethaf – drwy amryfusedd ymyrrodd diawl y wasg â fo!**

Cyfarfu'r Cyngor o dan lywyddiaeth y Cyng. Rowland Rees yn Neuadd Rhydypennau ar nos Iau 25 Ebrill. Bu peth trafod ar lythyr yn y *Cambrian News* cyfredol, yn gresynu bod yr hen fainc wrth fynedfa i Bow Street wedi diflannu ac un newydd yn ei lle. Rhaid cofio bod rhai o'r meinciau hyn wedi braenu ac yn beryglus i'r cyhoedd a bod rheolau iechyd a diogelwch yn mynnu eu bod yn cael eu newid. Os oedd yr hen fainc yn harddu'r fynedfa i'r pentre, tybed sut olwg fydd ar y fynedfa pan ddaw'r datblygiad newydd i rym?

A sôn am y datblygiad newydd, sef yr orsaf a'r maes parcio, adroddodd y Cyng. Paul Hinge fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi taflu sbaner i'r cogiau ar hyn o bryd, gan arafu'r gweithgaredd. Teimlent y gall llanw'r môr yng Nghlarach yrru llif yr afon yn ôl, gan effeithio yn ddirfawr ar y tir o gwmpas yr orsaf arfaethedig. Mae'r datblygwyr hefyd yn ansicr am leoliad y cylchdro (roundabout) a'i defnyddioldeb. Yn ôl pobl leol a thu hwnt – dyma'r unig beth manteisiol sydd i ddod o'r holl brosiect.

Daeth gwybodaeth o ffynnon ddibynadwy mai gwastraff amser fyddai cwrs hyfforddiant i gynghorwyr. Felly penderfynwyd mai gwell fyddai i bob cynghorwr/wraig dderbyn copi o'r llyfryn *Canllaw'r Cynghorydd Da*. Ond bod hyfforddiant i'w gael i gadeiryddion ac is-gadeiryddion ar faterion ariannol cynghorau, a derbyniwyd hynny.

Yn ystod cyfarfod mis Mai, gwahoddir prifathro Ysgol Rhydypennau i drafod materion ynglŷn ag anghenion yr ysgol. Mae Un Llais Cymru mewn trafodaethau gyda Cylidd a Thollau Ei Mawrhydi parthed peidio a gwneud tâl treuliau cynghorwyr yn drethadwy.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Hinge nad yw'r broblem o ordyfiant mieri sydd yn treiddio i annedd ger y fynedfa i faes chwarae Tregerddan wedi ei datrys eto. Mae cwyn fod beicwyr yn anwybyddu y llwybr newydd o Bow Street i Gogerddan, ond mae cerddwyr yn gwneud defnydd da ohono.

Mae goliau yn barod i fynd fyny ar gae chwarae Tregerddan, ac mae meinciau newydd ar y ffordd, ond dychwelwyd yr hysbysfwrdd oherwydd ei fod wedi anafu ar y daith! Yng nghyfarfod mis Mai disgwylir adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar yr Archwiliad 2018-19.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Cyngor ar nos Iau 30 Mai yn Neuadd Rhydypennau, o dan lywyddiaeth y Cyng. Rowland Rees. Yn ei adroddiad blynyddol cyfeiriodd at y ffaith ei bod yn gyfrifoldeb arnom fel Cyngor i drafod a dosbarthu arian cyhoeddus yn ddoeth a chywir, a bod Cyngor Tirymynach yn llwyddo i wneud hynny. Cyfrannwyd yn hael i elusennau lleol, ac maent yn ddiolchgar am hynny. Gwelwyd y cynllun i arafu traffig wrth yr ysgol yn llwyddo, a bu'r goeden Nadolig ger Capel y Garn yn edmygedd cyffredinol. Gosodwyd meinciau newydd yn y gymuned, ac mae rhagor wedi eu pwrcasu. Diolchodd i'r Clerc, y Parchg Richard Lewis, am ei waith trylwyr, i'r Cyng. Iestyn Hughes am ofalu am y wefan, i'r Cyng. Vernon Jones am adrodd i'r wasg, ac i'r Cynghorydd Sirol am ei gefnogaeth a'i bresenoldeb cyson.

Diolchwyd i'r Cyng. Rowland Rees am ei lywyddiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac etholwyd y Gynghorwraig Meinir Lowry yn Gadeirydd dros y ddwy flynedd nesaf, a'r Cyng. Robert Pugh yn Is-gadeirydd.

Etholwyd y canlynol i gynrychioli y Cyngor ar fudiadau yn y gymuned. Pwyllgor y Neuadd: Cyng. Robert Pugh; Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre: Cyng. Meinir Lowry; Pwyllgor Ffrindiau Cartref Tregerddan: Cyng. Meinir Chambers; Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau: Cyng. Vernon Jones; Ysgol Rhydypennau: Cyng. Sian Jones; PACT: Cyng. Dewi James, Cyng. Dewi Evans, Cyng. Meinir Lowry.

Croesawyd Mr Peter Legget, prifathro Ysgol Rhydypennau ar gais y Cyngor i'r cyfarfod i egluro sefyllfa ariannol yr ysgol a'r problemau sydd yn bodoli, ac y bydd yn tueddu i gynyddu yn y dyfodol. Diolchwyd iddo a gadawodd y cyfarfod. Penderfynwyd trafod yr hyn a glywyd yn y cyfarfod nesaf a bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau ar sut a maint y medrwn gyfrannu at yr ysgol i wynebu y toriadau mawr dros y ddwy flynedd nesaf.

Symudwyd ymlaen i'r cyfarfod arferol gyda'r Cyng. Meinir Lowry yn cadeirio. Adroddwyd fod yr hysbysfwrdd wedi dod, ond bod angen sefydlu yn union lle mae ei osod ar wal Siop Spar. Deallir erbyn hyn na fydd yn rhaid i gynghorwyr dderbyn cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth a dosberthir ffurflenni i'w llanw yn y cyfarfod nesaf. Diolchir i berchennog Y Berllan am roddi arwydd dwyieithog ar y fynedfa a hynny ar gais y Cyngor (yn lle yr un Saesneg).

Daeth bil am £1,500, sef costau y goeden Nadolig, ond nodwyd mai am "gyfraniad" oedd y gofyn mewn llythyr ganol y flwyddyn ddiwethaf. Gwneir ymholiadau gyda'r trefnwyr.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Paul Hinge mai ond tri oedd yn bresennol mewn cyfarfod PACT gyda'r Heddwas Cymunedol. Y materion a drafodwyd oedd problem baw cŵn yn baeddu y caeau chwarae a pharcio ym mhob twll a chornel yn y gymuned ac ar leoedd cyhoeddus fel maes parcio y Neuadd a'r Capel. Eglurodd yr Heddwas na allai wneud dim am y parcio ar lefydd cyhoeddus. Gofynnwyd i Mr Robert Griffiths i dorri'r tyfiant ger y fynedfa at faes chwarae Bryncastell. Bu arddangosfa yn y Neuadd parthed yr orsaf arfaethedig, hynny i egluro mynedfeydd i'r anabl ac arwyddion. Dywedodd hefyd bod agoriad swyddogol i fod i'r llwybr newydd o Bow Street i Gogerddan, hynny ar 6ed Mehefin.

Cylchlythyrwyd y cynghorwyr gan y Cyng. Hinge yn gofyn i ni ei yrru at Mr Ken Skates, Gweinidog Trafnidiaeth ac Economi yn y Cynulliad i ymyrryd yn y ffaith fod Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr unfed awr ar ddeg wedi gwrthwynebu cynllun yr orsaf ar dir y gall yr ardal gael ei gorlifo o gyfeiriad Clarach. Penderfynwyd fod hwn yn lythyr y dylid ei anfon ar fyrder i'r Gweinidog a bod hi'n hen bryd dwyn yr Asiantaeth yma i gyfri.

Gofynnir i'r cyhoedd geisio bresenoli cyfarfodydd PACT, gan fod hyn yn gymorth i'r Heddlu fod yn wyliadwrus am unrhyw broblem sydd ganddynt yn y gymuned. Ceir yr amserau ar bosteri mewn lleoedd cyhoeddus.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 27 Mehefin am 7.30 yn Neuadd Rhydypennau.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu **hedyddcunningham@live.co.uk**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Capel Pen-llwyn**

*Mehefin*

23 10.00 Oedfa'r ofalaeth – Pen-llwyn

30 Gŵyl yr ysgolion Sul

*Gorffennaf*

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Dr. Rhidian Griffiths | 10.00 |
| 14 | Dr. Watcyn James (gwas Cymun) | 10.00 |
| 21 | Y Parchg Adrian Williams | 10.00 |
| 28 | Y Parchg Elwyn Pryse | 10.00 |

*Awst*

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Y Parchg Ddr. Watcyn James (gwas. Cymun) | 10.00 |
| 11 | | |
| 18 | Y Parchg Ddr. Watcyn James | 5.00 |
| 25 | Y Parchg M. P. Morris | 10.00 |

*Medi*


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Y Parchg J. Morris (gwas. Cymun) | 10.00 |
| 8 | Oedfa'r Ofalaeth Capel Seion | 10.00 |
| 15 | Y Parchg Ddr. Watcyn James | 10.00 |
| 22 | Y Parchg Adrian Williams | 10.00 |
| 29 | Y Parchg Ddr. Watcyn James | 5.00 |

**Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd**

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal oedd yn cystadlu ac a fu yn llwyddiannus yn eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd yn ddiweddar, da iawn chi, daliwch ati. Gwelsom rai wynebau â chysylltiad â'r ardal hefyd, da iawn chithau yn ogystal.

**Newydd ddyfodiad**

Cyfarchion a llongyfarchiadau i Darren a Joy Mathews, Stad Pen-llwyn ar enedigaeth merch fach ddechrau'r mis. 'Rwy'n siwr fod y brodyr yn falch iawn o'u chwaer fach.




**"Dot a Billy" – Awdur Lleol**

Yn ddiweddar perfformiwyd drama newydd yng Nghanolfan y Celfyddydau wedi ei chomisiynu fel rhan o brosiect Aberystwyth a Rhyfel 1914 – 18. Cafodd y ddrama ei hysgrifennu gan Richard Hogger, Plas Melindwr a Tom O'Malley ac roedd yn seiliedig ar lythyrau amser rhyfel Dot French a Billy Burditt o gasgliad Tom James. Cyfarfod siawns yn Aberystwyth sy'n troi'n gariad ond a oedd yn bosibl i'r cariad oroesi mewn amser rhyfel.

Mae'r prosiect yn dod a straeon a phrofiadau lleol o ryfel, 100 mlynedd yn ôl, yn fyw ac yn creu etifeddiaeth gymunedol ar gyfer darganfod a dehongli yn y dyfodol. Drama werth chweil yn wir a chanmoliaeth enfawr i'n awdur lleol ni yma ym Mhen-llwyn.

**Mr. Barry Jones Y Felin:**

Yn dawel ar Ddydd Llun 6ed o Fai, yn ei gartref gyda'i deulu o'i amgylch bu farw Barry yn 72 mlwydd oed.

Cafodd ei eni ar Dachwedd 4ydd 1946 yn unig blentyn i Fred ac Olive Jones. Treuliodd ei flynyddoedd cynnar yn Nyfnaint, cartref ei fam, ond dychwelodd y teulu pan oedd Barry yn 5 mlwydd oed i Gapel Bangor. Ni siaradau lawer o Gymraeg ar y pryd ond yn fuan iawn trochwyd ef yn iaith y nefoedd a daeth yn rhugl mewn dim amser.

Gadawodd yr ysgol yn 15 oed i weithio gyda'i dad a'i dad-cu yn cyflawni y gwaith pwysig o dorri beddau yn yr ardaloedd cyfagos, a dangosai falchder a gofal arbennig wrth ei waith.

Priododd Barry a June yn ddiweddarach a chawsant ddwy ferch, Andrea a Beverley, roedd yn Ddat-cu balch iawn hefyd pan anwyd Alan a Courtney a bu'r ddau yn ogystal a gweddill y teulu yn gysur mawr iddo yn y blynyddoedd olaf hyn.

Person direidus ond annwyl dros ben oedd a denodd ei ysbryd cyfeillgar a chymwynasgar lawer o ffrindiau iddo ar hyd y blynyddoedd. Byddai yn mwynhau chwarae dartiau a pŵl yn y gynghrair leol, ond ei brif ddiddordeb oedd garddio ac yn enwedig tyfu dahlias a llysiau, byddai yn gystadleuydd peryglus mewn amal sioe yn yr haf, a byddai dim yn well ganddo na dangos yr amryw gwpanau a chardiau fyddai wedi dod i'w ran wrth gystadlu.

Cafodd ei oddiweddyd yn 2016 gyda chlefyd blin Motor Neurone, ac er na allai yngan gair roedd y wên oedd yn eich disgwyl wrth ymweld ag ef yn dweud y cyfan. Cafodd ei ddymuniad o aros yn ei gartref drwy gydol ei salwch a hoffai'r teulu ddiolch i bob un a fu o gymorth iddo i wneud hyn yn bosibl, Hosbis yn y Cartref, Marie Curie, gweithwyr Tŷ Geraint a Nyrsys y Gymuned. Diolchant hefyd i bob un fu'n ymweld â Barry ac am y cydymdeimlad dwys tuag atynt hwy, fel teulu, yn eu colled a'u galar ac hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at HAHAV a Marie Curie.

Cydymdeimlwn ninnau fel ardal â'r teulu un ac oll yn yr amser blin yma yn eu hanes.

**Y Dair chwaer yn seiclwyr o fri**

Cynhaliwyd Rasys Gŵyl Seiclo Aberystwyth "Cycle Fest" penwythnos hanner tymor i ysgolion lleol.

Daeth Manon Lewis yn 4ydd yn ras blwyddyn 3 i ferched, Efanna ei chwaer yn 2il yn ras blwyddyn 5 a Megan yn 2il yn y ras blynyddoedd 7 i 11.

**Rasys Criterium**

Manon 3ydd (dan 8), Efanna 4ydd (dan 10) a Megan yn cwblhau y ras (dan 14) mewn amser cyflym iawn.

Ar y Dydd Sul, bu i Megan a'i thad



Aelodau ysgolion Sul Pen-llwyn a Chapel Seion yn agor y Gymanfa Ganu ym Methel Aberystwyth ar Fai 12



gwblhau ras Sportif Gorllewin Gwyllt Cymru - 46 milltir.

Fel pe bai hyn ddim yn ddigon, aeth y chwiorydd eto ar y dydd Llun i roi tro ar rasys Dringfa Rhiw a seiclodd y dair i fyny rhiw Cefn Llan o Lanbadarn, heb ormod o ymdrech. Tipyn o sialens yn wir.

Pob dymuniad da iddynt.a phwy a ŵyr efallai y byddant yn cystadlu rhyw ddiwrnod yn ras gyfartal y Tour de France neu'i thebyg!! Onid rhyfedd i bawb ei ddiddordeb ei hun? Cystadlaethau eisteddfod yr Urdd i rai, gêmau pêl-droed, rygbi, nofio, coginio ac yn y blaen i eraill. Ond seiclo heb os, sydd yn mynd bryd y dair chwaer.

*Trefnwyr Angladdau*

**C T Evans**

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

# LLANDRE

**Eglwys Llandre**
Cynhelir Te Mefus yn Eglwys Llandre
Dydd Sadwrn 6ed o Orffennaf
3 - 5 o'r gloch y prynhawn
Stondinau a the a choffi hefyd
Croeso i bawb
Mynediad £3.00

**Gŵyl Mabsant Llanfihangel Genau'r- Glyn**
27-29 Medi
Penwythnos o ddigwyddiadau i godi arian i Eisteddfod Ceredigion 2020.
Nos Wener – Stomp yn Nhafarn Rhydypennau.
Dydd Sadwrn – Taith Gerdded am 2 o'r gloch, ac yna adloniant.
Nos Sul – cyngerdd gan gorau ac unigolion talentog y fro yn yr eglwys yn Llandre.
Mwy o fanylion i ddilyn. Dewch yn llu

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Geraint Williams, Clos y Ceilog, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar

**Merched y Wawr**
Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Merched y Wawr nos Lun 20 Mai lle cymerodd Eiry Jenkins y swydd fel trysorydd a Nans Morgan fel ysgrifennydd. Mae Gwenda James yn para fel Llywydd. Diolchwyd i'r cyn swyddogion am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.

**Priodas aur**
Llongyfarchiadu i Chris a Dwynwen, Sŵn y Nant, Lôn Glanfred ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fehefin 24

**Ail am ysgoloriaeth**
Llongyfarchiadau i Ffion Evans ar ennill yr ail wobr yn ysgoloriaeth Geraint George yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am ysgrifennu cân amgylcheddol fydd yn cael ei rhyddhau yn ystod yr haf.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Craig a Rhiannon Edwards, Bugeildy, ar farwolaeth chwaer Craig – Michelle Matthewman - ar 30 Mai. Gweler hefyd dan Dolau.

# TREFEURIG

Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf ail sefydlir y gofeb yn y parc. Fe'i dadorchuddir am 3.30pm yng Nghae Chwarae Trefeurig, Pen-bont Rhydybeddau. Bydd stondinau ac adloniant i ddod â'r gymuned at ei gilydd



**Gwobr**
Megan Lois Griffiths, Coed y Glyn, yn sefyll wrth ei lluniau a ddaeth yn 3ydd yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd am gyfres o luniau lliw ar thema bwrlwm.

# DOLAU

**Diolch**
Dymuna Gaenor Hall, Minafon, Dole, ddiolch yn gynnes iawn am gyfeillgarwch ffrindiau a theulu ac am y llu o negeseuon, ymweliadau, cardiau a chyfraniadau a dderbyniwyd er cof am Eric.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Steve a Margaret Edwards, Talardeg, ar farwolaeth eu merch – Michelle Matthewman - ar 30 Mai. Cynhaliwyd yr angladd dydd Llun 17 Mehefin yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch.



# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
*Mehefin*
23 Taith i'r Ysgwrn
30 10.00 Peter Thomas – Bethel ; datganiad organ yn y prynhawn ym Methel am 2.30 Meirion Wyn Jones Rhian Davies Gŵyl Gregynog

*Gorffennaf*
7 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
14 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol
21 2.30 Owain Roberts
28 10.30 Dafydd Iwan – Noddfa

*Awst – ymuno â'r dref*
4 Seion Y Parchg Aled Jones
11 Bethel Delyth Morgan Phillips (Bore) Y Parchg Richard lewis (Nos)
18 Morfa Y Parchg Eifion Roberts
25 Seion Ffred Ffransis

*Medi*
1 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
8 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol
15 2.30 Oedfa Coda Ni Noddfa, Bethel, Tal-y-bont a Bethel, Aber yn uno

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Mehefin, 10 a 24 Gorffennaf, 14 a 28 Awst, 11 Medi. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Newid aelwyd**
Dymuniadau gorau yn ei chartref newydd i Menna Lloyd Williams sydd wedi symud o Glan Seilo i Waunfawr, Aberystwyth.

**Gohebydd Canolbarth y BBC**
Yn ddiweddar dechreuodd Iolo Cheung fel swydd gohebydd canolbarth y BBC. Mae Iolo yn fab i Hanna Huws (Tyddyn Seilo gynt) a Paul Cheung.



**Llongyfarchiadau i Gruff Lewis ar ennill Pencampwriaeth Rasio Ffordd Cymru am yr ail waith.**




**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i Ollie Thorogood, Glan Ceulan ar ddod yn bedwerydd yn ei grŵp oed ym Mhencapwriaethau Acwathlon y Byd yn Pontevedra, Sbaen ar Fai 2 yn cynrychioli Tîm Prydain.



**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Moss ac Elinor Thorogood, Glan Ceulan ar eu dyweddiad ar gopa Pumlumon ar Fai 10fed.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Ken Evans, Coedgruffydd, Salem, ar enedigaeth 4ydd gorwyr yn ddiweddar. Ganwyd mab i Iwan a Jess ym Mhennal, ger Machynlleth - a'i enw yw Llewyn Morgan Powell-Jones.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**
Daeth rhai o'r merched i'r cyfarfod ar ôl bod yn casglu sbwriel o amgylch y pentre', ymgyrch oedd ar droed ar y pryd. Casglwyd amryw o fagiau.

Cychwynnwyd y cyfarfod trwy fynd trwy'r busnes arferol a hefyd trafodwyd ein cinio blynyddol ar y 13eg o Fehefin, yn Nhafarn Bwlchgeuffordd, Bronnant. Yna aed ymlaen i gyfarch ein gwraig wadd sef Elin Angharad sydd â gweithdy a siop ledr ym Machynlleth. Ar ôl treulio tair blynedd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, mae bellach yn gampwraig yn trafod lledr ac yn gwneud pob math o bethau fel pyrsiau, bagiau ac yn y blaen, ac mae ei gwaith i weld dros y byd. Mae hefyd yn cymryd rhan yn y Celtic Challenge efo Tîm Aberdyfi. Roedd y noson yng ngofal Ann James a Mair Jenkins a diolchwyd i Elin Angharad am noson diddorol dros ben. Tynnwyd y raffl fisol a diweddwyd y noson gyda chwpanaid a sgwrs.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Roger Thomas a'r teulu, Maes Afallen, Bow Street ar golli ei briod Hilary, un a fu yn fawr ei pharch ac yn rhan annatod o weithgareddau yn y Penrhyn, ac yn barod ei chymwynas bob amser.

**Cymorth Cristnogol**
Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £765.22. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd, Eleri James, ddiolch i bawb a fu'n casglu yn y pentref er sicrhau fod casgliad yn digwydd yn y pentref eleni eto. Y casglwyr eleni oedd Gillian Dobson, Delyth Jones, Glenys Morgan, Mairwen Jones, y Parchg Judith Morris, Gwenan Price, Wendy Reynolds, Mervyn Hughes, Edward Roberts, Wendy Roberts, ac Elenid Thomas. Methwyd casglu sawl stad eleni oherwydd prinder casglwyr ond llwyddwyd i ymweld â stad newydd Ger-y-cwm – diolch i'r trigolion am eu croeso.



**Priodas hapus i Michelle Betts (o Aberystwyth) a Phil Richards (Ger-y-llan) welir efo'u merch fach Maddie briodwyd yng Nghastell Aberteifi. Dyma'r ail briodas iddynt gan idynt briodi yn wreiddiol yn Awstralia lle maent ers pum mlynedd. Michelle yn weinydd a Phil yn ymgynghorwr morgeisi.**



Priodas Lauren a Sion James - Mai 5.

# Cipio medal celf Eisteddfod yr Urdd

Seren Wyn Jenkins, Waunfawr a Phenrhyn-coch, sy'n ddisgybl Lefel-A yn Ysgol Gyfun Penweddig oedd enillydd y Fedal Gelf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Fro 2019.

Cyflwynwyd y Fedal Gelf eleni gan Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, ac fe'i rhoddwyd i'r uned o waith mwyaf addawol o blith cynnyrch cystadlaethau'r Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg o dan 19 oed.

Mae Seren wedi bod yn cystadlu yng nghystadlaethau celf, dylunio a thechnoleg yr Urdd ers oedd yn ddim o beth yn Ysgol Penrhyn-coch ac wedi profi cryn lwyddiant gan gyrraedd y Genedlaethol bob blwyddyn ers 2010. Ond dyma'r tro cyntaf iddi ennill un o'r prif wobrau. Fel rhan o'i hastudiaethau Lefel A yn Ysgol Penweddig mae Seren yn astudio gwaith y dylunydd gwrthrychau modern, Bethan Gray a dyna lle daeth y syniad i ddylunio bwrdd coffi modern gyda naws Gymreig. Cafodd ei hysbrydoli ymhellach gan waith tecstilau Josie Russell ac Edrica Huws.

Meddai Seren, "Wrth ymweld ag Oriel Môn yn 2013 sylwais ar waith Josie Russell - tynnodd fy sylw yn syth bin.  Dyma blannu'r hedyn ar gyfer top y bwrdd coffi. Sbardun arall oedd gweld gwaith tecstiliau Edrica Huws, sydd â thylwyth ym Mhenrhyn-coch, mewn cylchgronau ac ar y we."

Roedd hi'n glir o'r dechrau i'r artist ifanc taw siâp Cymru byddai ar dop y bwrdd a hynny gan ddefnyddio tecstilau. Roedd yn awyddus bod y coesau yn cael eu gwneud o dderw Cymreig gyda phennill cyntaf yr anthem genedlaethol wedi'i ysgythru arnynt. Er mai lledr a ddefnyddiwyd yng ngwaith Bethan Grey, penderfynu defnyddio copr o amgylch amlinelliad Cymru wnaeth Seren a hynny er mwyn cynrychioli Sir Fôn a'r gwaith mwyngloddio a fu yno.

Ychwanegodd, "Yn ogystal â chael fy ysbrydoli gan waith Josie Russell, Edrica Huws a Bethan Grey, roeddwn hefyd yn teimlo fod bwrlwm ynglŷn â Chymreictod ar hyn o bryd a chynnyrch Cymreig yn dod yn fwyfwy amlwg o gwmpas y lle. Teimlais fod angen rhywbeth modern oedd yn dathlu ein gwlad a'n hunaniaeth."

Mae celf yn rhan bwysig o fywyd Seren ac mae'n cael blas ar weld ei gwaith yn dod yn fyw ar ôl y cynllunio. Ar ôl astudio CDT yn y coleg, ei bwriad yw meithrin ei busnes ei hun mewn stiwdio yn yr ardd.

Dywedodd Gwenllian Beynon, un o feirniad y Fedal eleni, "Roedd y safon yn wych eleni a braf oedd gweld cymaint o bobl ifanc yr oed hwn yn cystadlu. Er ei bod yn anodd gwneud penderfyniad, roedd gwaith Seren yn broffesiynol iawn er ei bod yn ifanc. Roedd hi'n amlwg wedi gwneud tipyn o ymchwil i'r farchnad ac roedd ei chyflwyniad yn hynod ddiddorol. Mae Seren yn amlwg wir yn meddwl am gynaliadwyedd a defnyddio deunydd lleol yn ei gwaith.

Seren sy'n enw addas
i un mor wych â thi,
disgleirio wyt yn llachar
dros hon, ein Prifwyl ni.
Fe greaist ti dy Gymru
â'th ddefnydd di dy hun,
a nawr y wlad yn gyfan
a ddaeth yn rhan o'r llun.

**Ethan Williams**
**Llywydd yr Urdd**

Daeth Seren hefyd yn 1af mewn Gwaith Dylunio a Technoleg Bl10 a dan 19 oed; 2il yn y gystadleuaeth CAD/CAM Bl10 a dan 19 oed a 3ydd ar Waith Creadigol 2D Tecstiliau Bl10 a dan 19 oed. A daeth ei chwaer Sian Fflur Jenkins yn ail yng nghystadleuaeth Ffotograffeg/ Graffeg Cyfrifiadurol Bl10 dan 19oed ac yn 3ydd ar Brint Lliw Bl10 dan 19 oed.







# Adeiladau newydd IBERS

Golygfa o'r adeiladau newydd ar y campws yn dangos y ffordd wedi ei lledu mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ceredigion. Ar y dde gwelir staff yn dechrau llwytho y tray cyntaf o hadau yn adeilad newydd Biofanc IBERS





Capten. Owain James



Sgoriwr mwyaf o goliau. Jonathan Evans



Chwaraewr mwyaf addawol a chwaraewr y cefnogwyr. Tom Evans



Chwaraewr mwyaf addawol a chwaraewr y cefnogwyr. Owen Keyworth

# Gwobrwyo ym Mhenrhyn-coch



Sgoriwr mwyaf o goliau. Siôn James



Chwaraewr y flwyddyn. Jon Foligno



Chwaraewraig a wnaeth fwyaf o gynnydd - Gabriella Tedaldi
Chwaraewr y chwaraewyr - Mel Holmes
Chwaraewr y rheolwr - Steph Lucas
Yn absennol. Capten a Sgoriwr fwyaf o goliau. Debbie Hamer
Dawn Lucas a sgoriodd goliau yn y gêm olaf a Kevin Jenkins, rheolwr



Capten. Craig Errington



Chwaraewr y flwyddyn. Tyler Richards



Chwaraewr a wnaeth fwyaf o gynydd. Derfel Reynolds



Capten. Steve Beresford. Llun Pete Tooze yn derbyn y tlws yn ei absenoldeb



Chwaraewr y flwyddyn. Mathew Williams. Jamie Beasley yn derbyn y tlws yn ei absenoldeb



Sgoriwr mwyaf o goliau. Chris Wylde




**Gobeithlu Salem, Coedgruffydd 1922**
Yn y llun hwn fe welir y bobl a'r plant a oedd yn gysylltiedig â Gobeithlu Salem, Coedgruffydd, yn y flwyddyn 1922. Diolch i Mrs Eirlys Reeve, Rickmansworth (gynt o Ysgubor Newydd, Capel Madog) am gael benthyg y llun ac am enwi bechgyn Troedrhiwseiri, sef: 1] Thomas James Williams, 7 oed; 2] Elfyn Richard Williams, 6 oed, (wedyn Ysgubor Newydd); 3] William Henry Williams, 4 oed; a 4] David John Williams, 8 oed. Eu rhieni oedd Thomas ac Elizabeth Williams. Collasant eu tad ar 21 Mehefin 1922 yn 67 oed, ychydig cyn i'r llun hwn gael ei dynnu, ac roedd ganddynt chwaer, Elizabeth (Lisi), yn fisoedd oed ar y pryd. Tybed a oes yna ragor o enwau'r gweddill ar gael? Diolch i Ian Sant, Goginan am ddatblygu'r llun o'r gwreiddiol.

**Erwyd Howells**

# Colofn Elin Jones



Bu etholiadau Ewrop yn yr wythnosau diwethaf, ac roeddwn yn falch iawn i weld Ceredigion yn cefnogi Jill Evans a'r tîm o ymgeiswyr profiadol Plaid Cymru unwaith eto. Fe lwyddodd Plaid Cymru i ddenu bron 40% o'r bleidlais yng Ngheredigion, a gyda'n gilydd, denodd y pleidiau oedd yn sefyll ar blatfform 'Aros yn Ewrop' dros 60% o'r bleidlais ledled ein sir. Mae'n sicr bod Ceredigion yn dal i gredu yn Ewrop, ac mae'n rhaid i Lywodraethau Cymru a San Steffan cymryd sylw o hyn.

Er bod Brexit yn parhau i fod ar frig yr agenda newyddion, mae materion eraill o bwys sy'n amlygu ei hun, a hynny'n rhannol yn ddiolch i bobl ifanc ein sir.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn destun trafod a phryder i'n genhedlaeth ifanc, a dros y misoedd diwethaf, nhw sydd wedi cymryd yr awenau wrth dynnu sylw gwleidyddion y byd tuag atynt. Fe fu protest enfawr tu fas i'n Cynulliad yn ddiweddar, gyda phlant a phobl ifanc o bob cwr o'r wlad yn streicio dros eu dyfodol. Hefyd, yn yr wythnosau diwethaf, roeddwn yn falch i siarad mewn rali a drefnwyd gan ddisgyblion ysgolion Pen-glais a Phenweddig tu fas i Ganolfan Rheidol yn Aberystwyth. Mae neges y bobl ifanc hyn yn glir - 'Dyfodol pwy? Dyfodol Ni.'

Mae'r Llywodraeth yng Nghymru wedi dangos eu bod yn cymryd sylw, a hynny trwy gytuno â chynnig Plaid Cymru i gyhoeddi 'Argyfwng Hinsawdd'. Er hynny, mae angen i'r Llywodraeth dangos bod y datganiad hwn mwy nag eiriau yn unig.

Y prawf cyntaf fydd y penderfyniad ar ffordd osgoi'r M4, ac fe fydd gofyn ar y Llywodraeth sut mae talu dros £1.5 biliwn ar 14 milltir o briffordd yn cyfateb â'r datganiad. Yr ail fydd ei hymateb i geisiadau fel yr un diweddar gan gwmni tanwydd ffosil o'r enw Eni i ymchwilio'r moroedd tu hwnt i Fae Ceredigion am nwy ac olew.

Ar ôl clywed y newyddion hyn, cwrddais ag ymgyrchwyr lleol, ac ysgrifennais at Weinidog Llywodraeth Cymru dros ynni a'r amgylchedd i ymyrryd ar frys. Cododd Ben Lake y mater hefyd yn San Steffan, ac roedden ni'n dau o'r farn na ddylid caniatáu archwilio tanwydd ffosil ym Mae Ceredigion yn sgil yr effaith tebygol ar ein hardal.

Erbyn hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi na fydd yn caniatáu i Eni ymwneud â'r ymchwil hyn, ond mae'n hollbwysig bod pob penderfyniad yn y dyfodol tebyg yn ystyried effaith ar ein hamgylchfyd. Achos dyfodol pwy fydd hi? Dyfodol ein plant a'r cenedlaethau sydd i ddod, wrth gwrs













Gwelwyd rhai o rieni a staff Ysgol Penrhyn-coch a'u plant ar raglen goginio newydd S4C Bwyd bach Shumana a Catrin.

# Englynion bedd




Os ewch i'r *Surrey Fish and Chip Shop* yn y Borth oedwch am eiliad i edrych ar y tŷ swmpus braf sydd i'r dde iddi, yr un sydd rhyngddi â'r *Surrey Cafe and Gift Shop*. Ei enw urddasol yw Surrey House ac yno ychydig dros ganrif yn ôl y trigai'r capten Hugh Jones. Yr oedd yn fab i David Jones (1837-91), *master mariner* a fu farw yn 54 oed pan gydiodd tân yn ei long, yr S.S. Abbey, a'i suddo. Llongwyr oedd ei holl feibion, pump ohonynt, a bu i un ohonynt, John Jones (1864-84) foddi ar ei fordaith gyntaf ar y barc Dora Ann pan syrthiodd o'r wernen a chael ei ysgubo i'r weilgi gan donnau'r Môr Tawel. Yr oedd brawd arall, Morgan Hugh Jones, yn gapten ar y Cadeby a thra'r oedd yn cludo llwyth o bren o Oporto i Gaerdydd daliwyd y llong gan long danfor Almeinig. Gorchmynnwyd i'r criw adael y llong a chafodd ei suddo'n ddisymwth gan dorpedo. Yr oedd brawd arall, David Hugh Jones (1863-1935) yn *first mate* ar yr S.S. Beechpark pan suddwyd honno gan dorpedo arall ym 1917, ond diahangodd gan farw ym 1935. Ddechrau mis Tachwedd 1917 yr oedd Hugh Jones yn ei stemar, yr Heathpark, ger Bilbao yn cludo mwyn haearn, ar gyfer yr ymgyrch ryfel, o'r dref honno i Maryport yn Cumbria. Yr oedd y llong yn un mewn convoy o bum llong arall. Yn y lluniau ohono mae golwg mwyn a chall arno ac yn un o'r lluniau fe'i gwelwn gyda'i griw ar ffwrdd ei long ac mewn un arall yn mae'n synfyfyrio'n brysur wrth ei ddesg.

Mae paentiad o'r Heathpark hefyd ar gael:



Ar y pymthegfed o fis Medi yr un flwyddyn cychwynnodd yr U-boat Almeinig U91, dan arweiniad Alfred von Glasenapp ar daith o Heligoland i Ynysoedd Heledd (Hebrides) ac yna i lawr arfordir Ffrainc a Sbaen cyn dychwelyd i'r Almaen trwy gulfor Pentland yng ngogledd yr Alban.

Yn ystod y daith farwol hon suddodd ddeuddeg o longau (gan gynnwys rhai o wledydd niwtral). Un o'r rhain oedd yr Heathpark a lladdwyd pawb oedd ar ei bwrdd gan gynnwys dau ŵr ieuanc arall o'r Borth –David L. Lewis (26 oed) a David Kenneth Jones (16 oed). Bu corff Hugh Jones yn y môr am dridiau cyn i dri physgotwr Basgaidd lleol gael hyd iddo yn ei siaced achub a dod ag ef i'r lan. Ddeuddydd ar ôl ei farwolaeth annhymig, a heb fod yn gwybod am y newyddion drwg, lluniodd ei wraig lythyr, yn Saesneg, iddo ac mae hwn i'w weld yng Nghasgliad y Werin. Daeth y rhyfel i ben ryw fis yn ddiweddarach. Fe'i claddwyd yn gyntaf ym mynwent Ondorroa cyn ei symud i'r fynwent Brotestannaidd yn Lujua. Pan gaewyd honno fe'i symudwyd eilwaith i'r fynwent filwrol Brydeinig yn Bilbao, lle gorwedd ei gorff hyd heddiw. Ym 1929 gosodwyd maen hardd ar ei fedd gyda'r arysgrif 'Master Hugh Jones, S.S."Heathpark" 5th October 1918, Age 49. Died for King and Country. Rest in Peace. Never Forgotten.' Enillodd fedalau, ond gadawodd wraig a nifer o blant ar ei ôl. Bu farw von Glasenapp yn 76 mlwydd oed ym 1958 ac mae'r dref lle magwyd ef, Öls, bellach yng ngwlad Pwyl. Serch hyn, ac nid yw hyn yn anarferol ym mynwentydd arfordir Cymru, gosodwyd carreg fedd uwch bedd gwag. Mae i'w weld o hyd ym mynwent Capel y Garn (Pen-y-garn). Saesneg yw'r arysgrif ond ceir englyn hefyd ar y maen (*Englynion Bedd Ceredigion*, t. 47):



Ar y don er brad creulonedd – gelyn
Yn gwylio'i gelanedd:
Yn naear 'Spaen erys bedd
Hir wiria ei arwredd.

**Guto Rhys**

Yr ydym yn chwilio am luniau o'r englynion bedd a byddai croeso mawr i'r darllenwyr ymuno ag Englyn Bedd ar Facebook.

**Guto Rhys Brwsel**









Englyn diddorol arall yw yr un ym mynwent y Garn er cof am Mary Delia James, Rhos, y Borth. Ganwyd Delia 16 Mehefin 1894 a bu farw wrth yr organ yng nghapel Soar (MC), y Borth ar 5 Mawrth 1939.

Dyma englyn Wil Ifan iddi
Delia ŵyl, ei hanadl ola' -a roes
I'r Iesu hawddgara;
A'i hymn ddechreuodd yma,
Mewn Bro wen ei gorffen ga.

**Wil Ifan**

# Colofn Enwau Lleoedd

Daeth ymholiad i law ynghylch yr enw *Dôl-cnyw* ym Mlaengeuffordd, Capel Bangor. Lleolir yr annedd islaw'r briffordd ar ddôl gysgodol ar geulan ogleddol afon Rheidol.




***Map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans 1887. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban.***

Bydd ystyr ac arwyddocâd yr elfen gyntaf, *dôl*, yn amlwg i bawb, ond tebyg bod yr ail elfen yn fwy dieithr. Dengys ffurfiau hanesyddol yr enw bod sillafiad yr elfen hon wedi amrywio dros y canrifoedd, e.e. *Tythyn Dole y knew* yn y Cwrtmawr Deeds (1675), *Dol y* Cnyw ar fap Lewis Morris 'A Plan of the Mannor of Perveth' (1744), *Dôlycnew* ar Restri'r Map Degwm (1843), a *Dolcniw* ar fap chwe modfedd yr Arolwg Ordnans (1904).

Mewn gwirionedd, *cnyw* sydd yma, ac er nad yw'n air cyfarwydd i ni heddiw, mae iddo hanes maith. Digwydd yn y Cyfreithiau Cymreig o'r drydedd ganrif ar ddeg, a cheir cryn ddefnydd ohono yng nghanu'r cywyddwyr rai canrifoedd yn ddiweddarach. Ei ystyr yw 'anifail ifanc, cenau', ond ar lafar ym Morgannwg, gall hefyd olygu 'ebol'.

Nid yw tarddiad y gair yn sicr, ond awgryma *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn betrus ei fod yn deillio o'r un gwreiddyn â *cenau*. Mae hynny'n ddiddorol yng nghyd-destun *Dôl-cnyw* oherwydd bod fferm *Pwllcenawon* (gyda *chenawon* yn ffurf luosog *cenau* yn golygu 'un ifanc o epil anifeiliaid megis cath, ci, blaidd, &c.') wedi ei lleoli gerllaw, yr ochr draw i afon Rheidol. Rhaid bod doldir cysgodol dyffryn Rheidol yn y fan hon yn addas iawn ar gyfer anifeiliaid ifanc o'r fath.

Gellir cymharu'r enw â *Chil-y-cnyw*, enw coll yng Nghantref Cemais, sir Benfro (B. G. Charles: *The Place-Names of Pembrokeshire* (1992) t.159), ac *Ynys-cnyw*, rhwng Brechfa ac Abergorlech yn sir Gaerfyrddin.

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru **www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
- **yn bont** - rhwng yr eglwys a'r gymdeithas
**yn fan cyfarfod** - i greu, i berfformio, i wrando, i ddysgu, i rannu
- **yn lle agored** - i bobl o bob oed a chefndir a chred; cartref i'r gymuned

morlan.cymru
01970 617996
morlan.aber@gmail.com
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH 01970-617996

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

# BOW STREET

**Suliau**
**Capel y Garn 10.00**
**Mehefin**
23 Bugail – Oedfa'r ofalaeth – Pen-llwyn
30 William Owen
**Gorffennaf**
7 Goronwy Prys Owen
14 Ifan Mason Davies
21 Bugail (Cymun)
28 Bugail
**Awst**
4 Noddfa
11 Bugail (Cymun)
18 Noddfa
25 Beti Griffiths
**Medi**
1 Goronwy Prys Owen
8 Bugail – oedfa'r ofalaeth - Seion
15 Rhidian Griffiths
22 Bugail (Cymun)
29 Bugail

**Noddfa – 10.00 oni noder yn wahanol**
**Mehefin**
23 Dr Rhidian Griffiths
30 Beti Griffiths
**Gorffennaf**
7 Uno yn y Garn
14 Y Parchg Richard Lewis - cymundeb
21 Cyfeillach
28 Dafydd Iwan
**Awst**
4 Y Parchg Elwyn Pryse – Garn yn uno
11 Uno yn y Garn
18 Mr Lyndon Lloyd – Garn yn uno
25 Uno yn y Garn
**Medi**
1 Uno yn y Garn
8 Y Parchg Richard Lewis Cymundeb
15 Uno yn Horeb am 2.30
22 Y Gweinidog
29 Cyfeillach



**Merched y Wawr Rhydypennau**
Ar yr 11eg o Fai gwnaeth saith aelod o'r gangen gystadlu mewn cystadlaethau crefft, coginio, gosod blodau a ffotograffiaeth yng Ngŵyl Fai, rhanbarth Ceredigion, yn Felin-fach, lle buont yn llwyddiannus iawn gan ennill y darian am y pedwerydd tro yn olynol.

Ar nos Lun Mai 13eg, croesawodd Brenda Jones, ein Llywydd, pawb yn wresog i'r cyfarfod blynyddol. Diolchodd i'w chyd- swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith,ac yn arbennig i Meinir Roberts a Gweneira Williams am ddod i'r adwy ar fyr rybudd ar ôl i ni golli Janet Roberts ein trysoryddes. Talodd Brenda deyrnged iddi hi ac hefyd i Eirian Dafis a'n gadawodd cyn eu hamser.

Diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth ac i'r rhai fu'n helpu mewn gweithgareddau fel te Afallen Deg a stondin gacennau Gŵyl Calan Mai y Neuadd ac i'r rhai fu'n cystadlu yn chwaraeon a Gŵyl Fai y rhanbarth. I gloi, dymunodd yn dda i swyddogion a phwyllgor y flwyddyn nesaf.

Swyddogion 2019-2020
Llywydd: Mair Lewis
Ysgrifennydd: Margaret Roberts
Trysorydd: Meinir Robets
Is-Lywydd: Lisa Davies
Is-Ysgrifennydd: Gweneira Williams
Is-Drysorydd: Maria Owen
Aelodau'r Pwyllgor: Brenda Jones, Joyce Bowen, Ceris Jones, Gaenor Jones a Mair Davies.

Diolchodd Mair Lewis i swyddogion a phwyllgor 2018 -19 am eu gwaith.

Yn dilyn cafwyd Cwis Hwyl lle bu tipyn o grafu pen! Yr enillwyr oedd Leila, Liz, Mary a Ellen.

Yna mwynhawyd lluniaeth hyfryd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor dan ofal Mair Lewis a Gweneira Williams. Enillydd y raffl oedd Joyce Bowen.

Ar ddydd Sadwrn Mai 18fed, cynhaliwyd Gŵyl Haf MYW ym Machynlleth, lle derbyniodd Margaret Roberts dlws am ennill yn y Golff.

**Noson Goffi Henoed**
Bu'r Noson Goffi flynyddol a drefnir gan Bwyllgor Henoed Bow Street a Llandre yn llwyddiant mawr unwaith eto. Diolch o galon i bawb a gefnogodd y digwyddiad ar y noson ac i aelodau'r Pwyllgor fu'n trefnu'r cyfan. Diolch yn arbennig i Mrs Nans Morgan am agor y noson yn swyddogol ac hefyd am ei rhodd ariannol sylweddol.

**Swydd newydd**
Dymuniadau gorau i Medi Jones-Jackson yn ei swydd newydd fel swyddog Digwyddiadau Hybu Cig Cymru a hwyl ar werthiant ei chyfrol newydd *Genod gwych a merched medrus* (Y Lolfa). Llyfr am 12 o ferched ysbrydoledig o Gymru e.e. Tori James, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn, Haley Gomez. Mae'r merched yn arbenigwyr yn eu



**Apêl Madagasgar**
Fel rhan o'r apêl y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ei chynnal ar hyn o bryd er budd trigolion Madagasgar fe gynhaliodd Capel Noddfa daith gerdded arbennig ar hyd y llwybr newydd o Bow Street i Gogerddan ar y 5ed o Fai gyda golwg ar fedyddio'r llwybr a chodi arian at achos da (a chyfle i rai o'r aelodau gael ychydig o ymarfer corff yn y fargen). Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r daith ac wedi lluniaeth ysgafn yn y Festri ar derfyn y daith sylweddolwyd bod dros £400 wedi ei godi. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.

meysydd penodol ac yn dod o bob rhan o Gymru. Mae'r llyfr yn llawn hwyl, ffeithiau, posau, gweithgareddau, cartwnau a lluniau lliwgar, wedi ei ddylunio gan Dyfan Williams a Telor Gwyn a'r testun gan Medi Jones-Jackson.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn gydymdeimlad â Roger Thomas, Daniel, Eleri a'u teuluoedd, Maes Afallen ar farwolaeth sydyn Hilary Thomas. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth dydd Gwener 7 Mehefin.

**Eisteddfota**
Llongyfarchiadau mawr i Dilys am ennill ar gyfansoddi adroddiad i blant dan 6 oed yn Eisteddfod Gadeiriol Mynytho, ac i Vernon am ennill ar y Cywydd yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid.



i Elen Mary Morgan, Llys Alaw, Pen-y-garn, ar ennill y drydedd wobr am ysgrifennu cerdd oedran Blwyddyn 8 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

i Anest Eurig, Cain Fallen, ar gael ei dewis i gyflwyno'r Aberthged yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

Ac i Rees Thomas, Tŷ Clyd, ar gael ei ddewis i lunio'r Gadair ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

**I'r Coleg**
Llongyfarchiadau mawr i Jordan Jones, Maes Awelon, ar gael ei dderbyn i Goleg Hitchin, Swydd Hertford i ddilyn cwrs mewn sioeau cerdd.

**Croeso**
Croeso mawr i'r pentref i Mr Emyr Davies sydd wedi ymgartrefu yn Llys Maelgwyn.

**Gwellhad Buan**
Yr ydym yn danfon pob dymuniad da am adferiad llwyr a buan i Mr Tegwyn Evans, 43 Maes Afallen, ar ôl iddo dderbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Treforys.

**Pencampwriaeth Bêl-Droed Bow Street**
Bydd pencampwriaeth ieuenctid Bow Street yn dathlu ei phen-blwydd yn 17 oed ar 13 a 14 Gorffennaf eleni, ac mae'n bleser gan y clwb gyhoeddi enw'r noddwr newydd ar gyfer y digwyddiad eleni ac yn 2020, sef Castell Howell, un o'n prif gwmnïau cyfanwerthu bwyd. 'Ry'n ni wrth ein boddau bod Brian Jones, y cyfarwyddwr, a Castell Howell, yn barod i'n cefnogi,' nododd Wyn Lewis, cadeirydd y clwb. 'Mae'r cwmni'n enwog am gefnogi gweithgareddau cymunedol, ac rydym yn gwerthfawrogi bod ganddyn nhw ffydd ynom ni fel clwb drwy gytuno i'n noddi. Mae Brian Jones yn uchel ei barch drwy Gymru, a'i frwdfrydedd dros gefnogi gweithgareddau i'r ieuenctid ar lawr gwlad, yn amlwg. Mae'r ŵyl ieuenctid yn denu timau ledled Cymru erbyn hyn, a chredwn fod y bartneriaeth newydd hon yn adlewyrchu amcanion a gobeithion y clwb.'

Dywedodd Brian Jones, 'Ry'n ni fel cwmni'n gefnogwyr brwd o'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau ac yn credu'n gryf y dylid rhoi pob cyfle i'n pobl ifanc. Mae'n bleser cael cefnogi'r digwyddiad gwych hwn yn Bow Street.'

**Cinio blynyddol Clwb Bow Street**
Daeth tyrfa ynghyd i Westy'r Marine, Aberystwyth, ganol Mai ar gyfer cinio blynyddol y clwb. Bu'n dymor llwyddiannus unwaith yn rhagor,wrth i'r tîm cyntaf a'r ail dîm orffen eu tymor mewn safle gref. Uchafbwynt y tymor oedd llwyddiant y tîm dan 19



**'Te yn y Grug' - ymhle tybed?** Merched hwyliog y fro!

yn cipio cwpan Cynghrair Canolbarth Cymru a dod yn ail yn y gynghrair. Diolchodd Wyn Lewis, y cadeirydd, i bawb fu'n ymwneud â'r clwb drwy gydol y tymor, gan nodi i'r timau i gyd gael cefnogaeth ragorol. Rhoddwyd gwobr arbennig i Richard Lucas, sydd wedi bod yn un o reolwyr y tîm cyntaf ers 5 mlynedd, ac sydd wedi cyfrannu'n helaeth at waith y clwb ers dros 20 mlynedd. Cyflwynodd Barry Williams, Richard Lucas ac Amlyn Ifans, rheolwyr y tîm cyntaf, wobrau i'r tîm hŷn:
Chwaraewr y Chwaraewyr: Matthew Pemberty a Tomos Wyn Roberts
Chwaraewr y Cefnogwyr: Tomos Wyn Roberts
Prif sgoriwr: Tomos Williams
Chwaraewr y Rheolwyr: Matthew Pemberty
Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn: Ryan Evans
Y chwaraewr i ddangos y datblygiad mwyaf: Bradley Welsh
Y rheolwyr Rhodri Jones and Leighton Reynolds gyflwynodd y gwobrau i'r ail dîm:
Chwaraewr y Rheolwyr: Jac Williams
Chwaraewr y Flwyddyn: Neil Davies a Shaun Jones
Prif sgoriwr: Shaun Jones

A Sion Manley a Rhys Evans, rheolwr y tîm dan 19 oed, gyflwynodd y gwobrau canlynol:
Chwaraewr y Rheolwyr: Harry Turner
Chwaraewr y Flwyddyn: Siencyn Jones
Prif sgoriwr: Shaun Jones
Gwobr ola'r noson oedd Gwobr Goffa Pat Evans a enillwyd gan Tomos Wyn Roberts.
Daeth Dylan Roberts ac Allan 'Baba' Evans â'r noson i ben ag anerchiadau byr ar ran y noddwyr.

**Anrhydedd**
Llongyfarchiadau mawr i Siwan Lloyd Hayward ar gael ei hanrhydeddu ag OBE yn rhestr pen blwydd y Frenhines o anrhydeddau. Y mae Siwan yn byw yn Walthamstow ac wrth ei gwaith yn Gyfarwyddwraig Cydymffurfio,

Plismona a Gwasanaethau ar y Stryd gyda Trafnidiaeth Llundain. Ac wrth gwrs mae hi'n ferch i'r Athro Michael a Mrs Shan Hayward, Rhydtir.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Richard a Bethan Hartnup, Maes Ceiro, ar enedigaeth wyres fach yn Warwick; merch fach i John a Madelyn. Eleri yw'r enw.



Gwelwyd mewn gardd yn Bow Street - lindys Shargacucullia verbasci - Cwcwll y pannog (Mullein moth)



Y chwaraewr i ddangos y datblygiad mwyaf: Bradley Welsh



Chwaraewr y Rheolwyr: Harry Turner



Wyn Lewis a Richard Lucas

# Gwobrwyo yn Bow Street



Chwaraewr y Flwyddyn: Siencyn Jones



Chwaraewr y Chwaraewyr: Matthew Pemberty a Tomos Wyn Roberts



Chwaraewr y Rheolwyr: Jac Williams



Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn: Ryan Evans



Chwaraewr y Flwyddyn: Neil Davies a Shaun Jones



# Colofn BEN LAKE AS

Dwi wedi dysgu dros y ddwy flynedd diwethaf, bod dyfalbarhad a phenderfynoldeb yn rhinweddau sydd angen ar bob Aelod Seneddol gwerth ei halen, yn enwedig yr aelodau hynny sy'n cynrychioli ardaloedd cefn gwlad.

Ers cael fy ethol yn 2017, un o'r materion sydd wedi bod yn flaenoriaeth i mi yw sicrhau mynediad etholwyr a busnesau at wasanaethau bancio, ac mae'n siŵr gen i y byddaf yn cael fy adnabod am flynyddoedd i ddod fel Ben Bachan y Banciau, cynifer o weithiau dwi wedi codi'r mater ar lawr y siambr, mewn cyfarfodydd ac mewn colofnau papurau bro!

Ond y gwirionedd yw bod dros 200 o fanciau wedi cau yng Nghymru ers 2008 ac mae'r nifer o drefi sydd bellach heb unrhyw fanc yn cynyddu'n frawychus o gyflym, ac mae'n rhaid gweithredu ar fyrder er mwyn llenwi'r bwlch sydd wedi ei adael gan fanciau'r stryd fawr.

Dwi wedi bod yn cydweithio'n agos gyda grŵp trawsbleidiol o Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau gwledig dros y misoedd diwethaf, ac yn ddiweddar bu i ni gyfarfod ag Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys i drafod cau canghennau banc a chyflwyno'r achos o blaid datrysiadau arloesol megis canolfannau bancio cymunedol.

Mae'r syniad o sefydlu canolfannau cymunedol lle gall gwahanol fanciau gydleoli eu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn un sydd yn cael ei gefnogi'n eang erbyn hyn. Mae'n galonogol gweld bod yna gynllun peilot ar fin cael ei dreialu (yn Lloegr yn anffodus) fydd yn sefydlu 6 hwb bancio busnes, gan ddod â nifer o wasanaethau bancio a gwasanaethau ariannol dan yr un to. Yr hyn sydd angen ei wneud nawr yw treialu'r peilot yma mewn ardaloedd gwledig, a byddaf yn pwyso am i hyn ddigwydd ochr yn ochr â fy nghydweithwyr yn San Steffan.

Un datblygiad calonogol arall yw'r cynlluniau i sefydlu banc cymunedol yng Nghymru, sef Banc Cambria. Mae Banc Cambria yn cael ei ddatblygu gan y grŵp Banc Cyhoeddus i Gymru. Bydd yn fanc i Gymru gyfan fydd yn gweithredu fel banc arferol, ond yn berchen i aelodau ac mae'r grŵp eisoes wedi sefydlu cymdeithas gydfuddiannol fydd yn gweithio tuag at wneud cais am drwydded fancio o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Yn y cyfamser, dwi'n bwriadu dyfalbarhau gyda'r ymgyrch bwysig hon, gan fynnu gwell gwasanaethau bancio lleol i'n trefi a'n cymunedau cefn gwlad – wedi'r cyfan, dyfal donc a dyr y garreg.

## GOGINAN

**Priodasau**

Roedd yr wythfed o Fehefin yn ddiwrnod mawr gan fod dau o fechgyn yr ardal wedi priodi. Huw Davies, Glwysle, gydag Elin Lockwood a Richard Jones, Melody, gyda Carys Mair. Llongyfarchiadau i'r ddau gwpwl. Dyma lun o Huw ac Elin



## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**

*Mehefin*
23 Bugail – Oedfa'r ofalaeth – 10.00 Pen-llwyn
30 William Owen

*Gorffennaf*
7 Goronwy Prys Owen
14 Ifan Mason Davies
21 Bugail
28

*Awst*
4
11 Bugail
18
25

*Medi*
1 Goronwy Prys Owen
8 Bugail – oedfa'r ofalaeth – 10.00 Capel Seion
15 Rhidian Griffiths
22 Bugail
29 Bugail

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Shirley Evans, Llain y Felin, Cefn-llwyd ar ôl iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iawn hefyd i Mr David Evans, Murmur y Coed, Capel Dewi sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei lygad.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Jacob Meredydd, Maes Awel, Cefn-llwyd, ar ennill gradd Baglor mewn Gwyddoniaeth (Systemau Gwybodaeth Gyfrifiadurol) o Brifysgol Bangor.




Bu noson lawnsio Jin 'Trafferth mewn tafarn' yn y Llew Du, Aberystwyth, 15 Mehefin pan werthwyd dros 120 mesur tu ôl y bar! Diolch i'r Llew am roi y dŵr tonic yn rhodd ac am hwyluso trefniadau. Braf yw cael dweud bod dros 200 o'r 400 potel wedi cael eu gwerthu erbyn hyn. Os am brynu potel mae ar gael drwy jintrafferth.cymru neu fe fydd ar werth yn Garej Tŷ Mawr, Penrhyn-coch a Rheidol ym Mhonterwyd. Yr elw i Gronfa Trefeurig Eisteddfod 2020.



# Mynwent Capel y Garn





Dros yr wythnosau diwethaf bu gwaith ar droed ym mynwent Capel y Garn i ddadwreiddio a chlirio y twf eiddew oedd wedi cuddio llawer o feddau yn y fynwent. Rhoddwyd y contract i Mr Dan Owen, Capel Seion, sydd hefyd yn gofalu am dorri porfa y fynwent. Bu'n waith caled, gan fod y gwreiddiau yn ddwfn ac wedi gwthio rhai o'r meini drosodd – gyda help ambell storm. Bellach mae'r gwaith ar ben, a dangosir yn y lluniau un o'r beddau cyn ei chlirio, ac yna llun bedd a'r piler wedi dod i'r golwg.

Sylwch ar y llun sydd a'r garreg yn lled orwedd, bron o'r golwg. Y tu ôl iddi daeth bedd William Owen, Penwern, i'r golwg gydag englyn o waith T. Gwynn Jones i'w gyfaill arni, sydd yn cynnwys y cwpled enwog:

Oedd ddidwyll a ddywedai
Union oedd yr hyn a wnâi.

Erbyn hyn defnyddir y cwpled hwn yn weddol gyffredin.

Diolch i Dan Owen am ei waith caled a chydwybodol. Bu rhaid iddo sythu a chodi rhai o'r meini yn ogystal a dadwreiddio'r tyfiant.

**Vernon Jones**

MYNACH GARDEN MAINTENANCE

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Fffoniwch Meirion:**

07792 457816
01974 261758

e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

## Ysgol Penweddig



**Yr Adran Gynnal: Gweithdy 'Get Creative'**

Mynychodd rhai disgyblion yr Adran Gynnal weithdy 'Get Creative' ym mis Mai yn Llyfrgell y Dre, Aberystwyth. Trefnwyd y gweithdy gan gwmni Get Creative ac hefyd BBC Radio Wales. Cafodd y disgyblon y cyfle i greu 'selfies' (ar bapur) a phortreadau o'u ffrinidiau ar gyfer creu fflag enfawr fydd yn cael ei osod ar gae Stadiwm Principality er mwyn dymuno lwc i dim rygbi Cymru ar ei siwrne i Gwpan y Byd eleni.

Roedd darlledwr o BBC Radio Wales yn siarad gyda ac yn cyfweld efo rhai o'r disgyblion hefyd am pam eu bod yn hoff o 'Selfies'.

**Lansiad Nofelau Bethan Gwanas a Lleucu Roberts**

Bu'r Adran Gymraeg yn ffodus o gael ei dewis i fod yn rhan o lansiad dwy nofel gan yr awduron Bethan Gwanas a Lleucu Roberts ym mis Mai. Mae'r nofelau yn rhan o gyfres o drioleg wedi eu cyhoeddi gan wasg y Lolfa. Derbyniodd rhai o ddisgyblion Bl 7 a 9 weithdai penodol gan y ddwy awdures ac roedd pawb wrth eu bodd!



Trydan
WILL DAVEY

Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi

NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Etholiadau Ewrop

Cynhaliwyd etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop ar 23 Mai. Gan fod y Deyrnas Unedig yn parhau yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, roedd yn rhaid cynnal yr etholiadau hyn yn ôl y gyfraith. Yng Nghymru, fel yn Lloegr, Plaid Brexit ddaeth yn gyntaf gyda 32.5% o'r bleidlais, a daeth Plaid Cymru yn ail gyda 19.6% o'r bleidlais, gan drechu'r Blaid Lafur. Dyma'r tro cyntaf erioed i Blaid Cymru drechu'r Blaid Lafur mewn etholiad Cymru gyfan. Pedair sedd sydd gan Gymru yn Senedd Ewrop, ac felly yn y diwedd etholwyd dau aelod Plaid Brexit, un aelod Plaid Cymru ac un aelod o'r Blaid Lafur.
Roedd y pleidleisiau yn cael eu cyfrif fesul sir. Y canlyniad yng Ngheredigion oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Plaid Cymru | 8,908 | 37.2% |
| Plaid Brexit | 6,471 | 32.9% |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 3,915 | |
| Plaid Werdd | 1,638 | |
| Llafur | 1,231 | |
| Ceidwadwyr | 896 | |
| UKIP | 578 | |
| Change UK | 328 | |
| **Cyfanswm** | **23,965** | |

Roedd hwn yn ganlyniad da iawn i Blaid Cymru yng Ngheredigion, yn wir yr ail orau trwy Gymru ar ôl Gwynedd. Llwyddodd Plaid Cymru i ddod yn gyntaf mewn tair sir, sef Gwynedd, Ceredigion a Môn, ond Plaid Brexit oedd ar y blaen yn yr 19 sir arall, er bod eu mwyafrif yng Nghaerdydd yn denau iawn. Mae'n amlwg fod llawer iawn o gefnogwyr y Toriaid, a gafodd ond 6.5% o'r bleidlais drwy Gymru, wedi heidio at blaid Mr Farage gan eu bod yn flin na weithredwyd Brexit eto. Yr un modd fe gollodd Llafur gefnogwyr i Blaid Cymru ac i'r Democratiaid Rhyddfrydol gan fod Llafur yn ceisio plesio cefnogwyr a gwrthwynebwyr Brexit.

I mi mae'n drist iawn fod pleidlais Plaid Brexit yng Nghymru (ac yng Ngheredigion) bron gyn uched ag ydyw mewn rhannau helaeth o Loegr, sef tua traean o'r pleidleiswyr. Mae'r sefyllfa yn yr Alban yn wahanol iawn. Yno fe gafodd yr SNP 38% o'r bleidlais a Phlaid Brexit tua 20% - mae gennym ni ffordd bell i fynd yng Nghymru!

**Richard Owen**

Y pedwar Aelod etholwyd yw
James Wells (Plaid Brexit)
Nathan Gill (Plaid Brexit)
Jill Evans (Plaid Cymru)
Jackie Jones (Plaid Lafur)

# Cyngor Cymuned Trefeurig



Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 21 Mai yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd Richard Owen yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Delyth James, Shân James, Gwenan Price, Dai Mason a Tegwyn Lewis yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iona Davies, Mel Evans, Kevin Jenkins ac Eirian Reynolds.

Roedd Edwina Davies newydd ddathlu pen blwydd arbennig a dymunwyd yn dda iawn iddi.


Gan fod Kevin Jenkins yn methu mynychu'r cyfarfodydd oherwydd ymrwymiadau eraill, roedd ei aelodaeth wedi dod i ben, a phenderfynwyd hysbysu'r Cyngor Sir o hynny.

Materion yn codi: Golau stryd – cadarnhaodd Dai Mason y byddai'r Cyngor Sir yn gwneud arolwg o oleuadau stryd yn y Penrhyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Hefyd roedd golau newydd i'w godi rhwng sgwâr y Penrhyn a stad Ger-y-llan, er nad oedd dyddiad wedi'i benodi eto. Caban bws ar y ffordd i Gogerddan – byddai'r Cyngor Sir yn trefnu i gael to newydd ar y caban hwn yn fuan. Y fynedfa o'r cae chwarae i Glanceulan – roedd y fynedfa hon yn beryglus ac angen rhwystr i feiciau, ond nid oedd dim wedi'i wneud hyd yma. Addawodd y Cynghorydd Sir fynd ar ôl y mater. Cae Chwarae Pen-bont – roedd y Clerc wedi edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael yswiriant y cae chwarae wedi'i gynnwys o fewn yswiriant Cyngor Cymuned Trefeurig (CCT). Ar hyn o bryd roedd y safle'n eiddo i CCT, ond pwyllgor annibynnol oedd yn gyfrifol am y cae chwarae a'r offer oedd yno. Er mwyn i yswiriant CCT gynnwys yswiriant y cae chwarae byddai'n rhaid i Bwyllgor y cae chwarae ddod yn is-bwyllgor o CCT gyda chyfrifon y cae chwarae yn rhan o gyfrifon CCT. Gan nad oedd hi yn gwbl glir beth oedd holl oblygiadau hyn, penderfynwyd y dylai'r Clerc holi Un Llais Cymru am ragor o arweiniad ar y mater, a gallai'r Cynghorydd Sir holi Cyngor Ceredigion am y mater.

Materion eraill: Digwyddiadau – nodwyd y byddai Barbeciw Cartref Tregerddan yn cael ei gynnal nos Wener, 21 Mehefin; PATRASA yn cynnal Parti yn y Parc 29 Mehefin. Llwybr beicio – nododd y Cynghorydd Sir fod llwybr beicio o'r Penrhyn i Gogerddan wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Sir, ac y byddai gwaith arno'n cychwyn yn fuan.

**Y Cyfarfod Blynyddol**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yr un noson. Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Sir, yr aelodau a'r Clerc am eu holl gymorth yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a dymunodd yn dda i'r Is-Gadeirydd, Delyth James, ar gyfer y flwyddyn i ddod. Etholwyd y canlynol ar gyfer 2019-20: Cadeirydd – Delyth James; Is-Gadeirydd – Gwenan Price; cynrychiolwyr ar bwyllgorau fel a ganlyn: Neuadd y Penrhyn a PATRASA – Gwenan Price; Cae Chwarae Pen-bont – Dai Mason; Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch – Shân James; Cartref Tregerddan – Tegwyn Lewis a Gwenan Price; Un Llais Cymru – y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd; y wasg – Richard Owen.




Tybed faint o deithwyr trên ar y ffordd i Fae Caerdydd i Steddfod yr Urdd welodd y sylw yma i orsaf newydd Bow Street? Diolch i'r delynores Ceri Wynne Jones am sylwi!

## Ysgol Craig yr Wylfa

**Twtio'r Tu Allan.**
Hoffai'r Ysgol ddiolch i rai o'r rhieni a fu yn brysur iawn ar ôl gwyliau'r Pasg yn twtio'r ardal allanol gan gymenu'r planhigion a phlanu mwy o flodau. Mae'r plant wrth ei boddau yn cymryd eu tro i roi dŵr i'r planhigion newydd.

**Ymwelydd Pwysig**.
Ganol mis diwethaf daeth Ben Lake i ymweld â'r Ysgol. Roedd y plant wedi mwynhau tywys yr ymwelydd pwysig o amgylch i ddangos eu hysgol iddo. Cawsant gyfle i sgwrsio gydag ef ac i ofyn ambell i gwestiwn.

**Twrnament Tenis.**
Llongyfarchiadau i Dylan, Ben, Liam a Ryley o Gyfnod Allweddol 2 a wnaeth gymryd rhan yn y twrnament tenis yn Aberystwyth. Roedd yr haul yn gwenu y diwrnod yna, ac roeddent wedi mwynhau'r cyfle yn fawr iawn.

**Cit Pêl-droed Newydd Sbon**
Roedd y plant wedi eu cyffroi pan gawsant git pêl-droed newydd sbon o "Premier League Primary Stars"! Pawb yn edrych yn smart iawn yn y cit newydd ac yn barod am gêm.

**Cystadleuaeth y Pentref.**
Cymerwyd rhan yng nghystadleuaeth y pentref a oedd i greu Bwgan Brain gan i ni ddilyn thema'r môr. Diolch i help Miss Griffithis a'r plant yn ystod Clwb Cŵl am greu dau Fwgan Brain, un fel Môr Leidr ac un fel Morwyn Fôr, a chwch i gydfynd gyda fe. Roeddent wedi cael eu gosod wrth fynedfa'r Ysgol ac yn edrych yn arbennig o dda.








D J Evans
Cyfarwyddwyr
Angladdau

Busnes teuluol gyda dros
60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol
gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,
cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN
UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

SIOP
SGIDIAU
GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd
graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.

Cofiwch gefnogi eich
busnesau lleol

# Ysgol Penrhyn-coch








**Trawsgwlad rhanbarth Ceredigion**
Aeth Aron, Harri, Zak a Steffan lawr i Langrannog i redeg yn Nhrawsgwlad Rhanbarth Ceredigion, cwrs hir a heriol.  Da iawn chi bois!

**Ymweliad Sw'r Borth i'r Cyfnod Sylfaen**
Ein thema'r tymor ydy 'Gwingo ac ymlusgo' a braf oedd croesawu greaduriaid egsotig o Sw'r Borth i'r Cyfnod Sylfaen. Crwban, madfall, pryfyn pric enfawr o Affrica a phawb yn cael cyffwrdd y nadroedd a Mrs Donnelly yn ddewr iawn yn gafael ynddynt!

**Gweithdy mwydod**
Thema y Cyfnod Sylfaen am Dymor yr Haf yw Trychfilod. Un o syniadau ar fap meddwl rhyngweithiol y Cyfnod Sylfaen oedd i fynd i ymweld â arddangosfa am fwydod yn yr Hen Goleg yn Aberystwyth. Cafodd y plant brynhawn diddorol yno yn dysgu ffeithiau gwahanol am fwydod a chawsant gyfle i wisgo fel gwyddonwyr bach!

**Cwis Llyfrau**
Eleni roedd gan yr ysgol dau dîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth darllen dros Gymru!
Fformat y cystadleuaeth yw i dîm o 4 i drafod llyfr penodol ac yna tîm arall I gyflwyno llyfr ar y llwyfan

Dewisodd Bl 3 a 4 trafod y llyfr Annalasia Swyn yn mynd i wersylla –Gwen,Osian,Freya a Lleucu oedd yn awyddus i drafod y testun ac roedden nhw'n fedrus ac yn ddeallus wrth sgwrsio am gynnwys y llyfr.

Penderfynon ni gyflwyno Llanast gan Mari Lovegreen ar y llwyfan – stori ddifyr am ferch fach o'r enw Anni oedd yn byw mewn ty go anghyffredin! Ty oedd yn llawn anifeiliaid anwes a tipyn o lanast wrth gwrs. Y criw oedd yn perfformio oedd-Gwe n,Lleucu,Osian,Freya,Elis,Cari a Liwsi.

Derbyniodd y criw yr ail safle allan o 6 ysgol ac roedden nhw wrth eu boddau!!

Llongyfarchiadau i dîm Cwis Llyfrau bl5/6 â gystadlodd yng nghystadleuaeth Darllen Dros Gymru y rownd sirol. Y llyfr trafod oedd Miss Prydderch a'r Carped hud gan Mererid Hopwood. Tra bu criw yn paratoi cyflwyniad ar y llyfr Drwg yn y caws gan David Walliams. Bu llawer o waith paratoi ac ymarfer. Da iawn chi blant! Roeddent hwythau yn 2il hefyd!

**Stondin Gacennau**
Dydd Gwener cyn hanner tymor trefnwyd stondin gacennau gan rieni a ddisgyblion y dosbarth Derbyn-diolch I bawb a fuodd yn pobi! Gwnaethpwyd bron hyd at £80 punt o elw-campus!!

**Eisteddfod yr Urdd Cenedlaethol**
Braf oedd gweld enw yr ysgol ar faes Bae Caerdydd eleni! Hofwn llongyfarch y criw Celf a Chrefft-Elis Wyn Jenkins wrth iddo dderbyn y 3ydd gwobr am ei ddolffin 'Bwrlwm y Bae'Gwehyddodd Elis y dolffin yn gelfydd iawn!

Osian Shek yn derbyn y 3 ydd gwobr hefyd yn ei 'collage' prysur iawn am dechnoleg

Criw y moch bach prysur yn 2il –Gruffudd ap llywelyn, Harrison Hughes a Noah Jenkins o Flwyddyn 1 a 2 creuodd eitem allan o grochenwaith.

Yn ogystal a hynny roedd ganddon ni griw ffit a medrus yn cystadlu yn y grwp hip hop a stryd sef criw 'Pwer Penrhyn'

Ni chafwyd llwyfan y tro yma ond roedd yn bleser gweld rhain yn perfformio-roedden nhw ar eu gorau pob un ohonynt! Diolch I Miss Rebecca am eich hyfforddi mae gennych dalentau di ri!!

**Ymweliad swyddog o'r ambiwlans awyr**
Cafon ni ymwelydd arbennig iawn sef Daniel Jenkins o ambiwlans awyr Cymru yn son am ei rôl. Cafon ni sgwrs diddorol am yr hyn mae wedi gweld a phrofi wrth achub a helpu phobl.Roedd pawb wrth eu boddau yn cael tro yn y car!

**Cyfnod Sylfaen-Ynys Hir**
Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen diwrnod llawn antur yn Ynys-Hir. Gweithgareddau di-ri i gyd fynd à'r thema Trychfilod. Cyfle i ymchwilio ac i ddysgu mwy am drychfilod. Braf oedd cerdded a profi natur ar ei orau.





ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627



# Ysgol Rhydypennau







**Eisteddfod yr Urdd.**
Yn hytrach na' ymlacio a mwynhau gwyliau hanner tymor bu nifer o blant ac athrawon yr ysgol yn mynychu Eisteddfod yr Urdd lawr yn y Brifddinas. Llongyfarchiadau mawr i Erin Hesden-Kenny (dawnsio unigol); y Parti Unsain a'r Parti Cerdd Dant am eu perfformiadau gwych yn ystod rhagbrofion yr wythnos. Hoffa'r ysgol ddiolch i'r plant am eu gwaith diwyd, y rhieni am eu cefnogaeth a chan ddiolch hefyd i Mrs Helen Medi Williams ac Eleri Roberts am eu hyfforddiant arbenigol dros yr wythnosau diwethaf.

**Penwythnos Glan-llyn**
Rhwng y 15ed a'r 17eg o Fai fe deithiodd 15 o blant blwyddyn 6 i Wersyll yr Urdd, Glan-llyn i fwynhau tridiau o ddifyrrwch ar lannau braf Llyn Tegid. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys saethyddiaeth, canŵio, dringo a rhwyfo. Dychwelodd y plant nôl i'r ysgol b'nawn Gwener wedi mwynhau'r profiadau gwych ac wedi canfod sawl cyfaill newydd.

**Ymweliad Addysgol**
Ar y 4ydd o Fehefin fe aeth plant blwyddyn 5 a 6 i safle Statkraft yng Nghwmrheidol er mwyn ymweld â'r pwerdy trydan. Yn ystod y dydd cafodd y plant gyfle i ddysgu am egni adnewyddiadwy, gwyliwyd ffilm am hanes adeiladu cronfa Nant-y-moch a phrofwyd grym anferthol y system hydro wrth i'r pwerdy gynhyrchu 56 mw o drydan mewn awr! Diolch i staff cwmni Statkraft am sicrhau ymweliad diddorol iawn.

**Llwyddiant**
Efallai i rai ohonoch chi fu'n crwydro maes yr Eisteddfod yn ystod wythnos Sulgwyn weld gwaith dylunio Mirain Evans (blwyddyn 2) wedi ei arddangos. Llongyfarchiadau mawr i Mirain am ennill cystadleuaeth Dylunio Blwyddyn 1a 2.

**Seiclo**
Llongyfarchiadau mawr i blant blwyddyn 6 am gwblhau cwrs hyfforddiant seiclo a diogelwch ar y ffordd fawr. Diolch i PC Goffin am yr hyfforddiant a diolch hefyd i Mrs Helen Jenkins am gynorthwyo yn ystod y diwrnod.

**Garddwest**
Mi fydd ein Garddwest eleni yn cael ei chynnal yn yr ysgol ar yr 28ain o Fehefin. Mi fydd y noson yn dechrau am 5 yr hwyr ac yn cynnwys adloniant gan blant blwyddyn 6.

**Clwb Cant**
Dyma ganlyniad Fis Mehefin:-
1af-£25- Elin. P. Williams..
2il-£15- Glenys Matthias.
3ydd-£10- Gerallt Jones.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:*www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk* *@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Deli
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ



# Ysgol Pen-llwyn

**Cwis Llyfrau 'BookSlam'**
Am y tro cyntaf erioed, penderfynodd Mrs Davies a chriw o blant blwyddyn 5 a 6 gystadlu yn gystadleuaeth 'BookSlam'. Ar ôl ychydig o wythnosau daeth y newyddion nad oedd llawer yn cystadlu yng Ngheredigion ac felly na fyddai cystadleuaeth ranbarthol. Roedden ni trwyddo i'r rownd genedlaethol a ninnau yn cystadlu am y tro cyntaf erioed! Bu'r plant yn arbennig o dda yn ymarfer yn hwyr y nos a hyd yn oed un sesiwn yn ystod hanner tymor. Roedd y plant wedi dewis astudio *Cowgirl* gan G R Gemin (Nosy Crow) i drafod a *Flight* gan Vanessa Harbour (Firefly Press Ltd) i greu cyflwyniad er mwyn annog plant eraill i ddarllen y nofel. Roedd y Cyngor Llyfrau wedi trefnu diwrnod i'r brenin, gyda chystadlaethau bachog a sesiwn gyda'r awdur Shoo Raynor. Ond roedd ffocws y plant ar y gystadleuaeth fawr. Roedden nhw'n barod i gydweithio fel tîm a gwneud eu gorau glas. Roedd yr athrawon a'r rhieni yn falch iawn ohonynt. Syrpreis llwyr oedd clywed ein bod ni wedi dod yn ail! Roedd y plant wrth eu boddau yn mynd ar y llwyfan i dderbyn y wobr o £150 tuag at lyfrau darllen a llyfr yr un. Diolch yn fawr i Miss Lawrence am ysgrifennu'r sgript a'r holl rieni a staff am helpu gyda'r gwisgoedd, ymarferion a'r props. Roedd hi'n ddiwrnod anhygoel a fydd yn aros yn ein cof am byth!

**Cwis llyfrau**
Aeth blwyddyn 3 a 4 i gystadlu yn y Cwis Llyfrau yn Felin-fach. Dewisodd y plant *Clem a'r Syrcas* gan Alex T Smith (Rily) i drafod a *Gwlad y Penblwyddi* addasiad gan Manon Steffan Ros (cyfres Byd y Goeden Ffwrdd â ni Enid Blyton) (Atebol). Roedd yn brofiad gwerth chweil ac mae'r plant wedi datgan diddordeb mewn cystadlu blwyddyn nesaf yn barod!

**Trychinebau**
Fel rhan o waith Cyfnod Allweddol 2 ar drychinebau, daeth Dan Jenkins o Ambiwlans Awyr Cymru i siarad am ei waith. Mwynheuodd y plant ddysgu am y math o waith mae e'n gwneud o ddydd i ddydd a manteisiodd y plant ar y cyfle i holi llawer o gwestiynau diddorol.

**Ynys Hir**
Buodd CA2 yn ymweld ag Ynys Hir am ddiwrnod o weithgareddau yn seiliedig ar ei waith gwyddoniaeth. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn casglu creaduriaid bach o wahanol gynefinoedd, ac yn dilyn taith natur gan ddefnyddio eu sgiliau cyfeiriannu.
Yna, cafodd y Cyfnod Sylfaen gyfle i fynd i Ynys Hir hefyd. Cawsom ddiwrnod bendigedig o dan arweinyddiaeth Monica a Jenny. Roedd y plant yn arbennig yn dilyn map i chwilio am deganau meddal lle gwelsom adar diddorol, nyth gwyddau a llawer o bili-palaod.

**Clwb Olwynion**
Mae wedi bod yn braf gweld nifer fawr o olwynion yn ein clwb olwynion ar nos Fercher yn ystod tymor yr haf. Mae'r plant yn dod a beiciau, sgwteri, ac esgidiau rholio. Maent yn llwyddo i gyflawni amrywiaeth o heriau ar yr iard a'r cae tu ôl yr Ysgol. Mae'n hyfryd gweld y gorau o'r tywydd sych a chadw'n heini mewn ffordd hwylus iawn.

**Gŵyl Seiclo Aberystwyth**
Roedd yn fore arbennig gwylio rhai o'n disgyblion yn cystadlu yn yr Ŵyl Seiclo yn Aberystwyth. Da iawn i Manon, Rhydian ac Efanna. Llongyfarchiadau i Efanna am ddod yn ail yn gystadleuaeth merched Blwyddyn 5. Diolch i'r holl drefnwyr am drefnu gŵyl arbennig yn ein tref!

**Trawsgwlad Cenedlaethol**
Ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Fai, cynhaliwyd trawsgwlad cenedlaethol Cymru ar gaeau









Blaendolau. Cystadlodd y plant yn wych, gydag Ana Joyce yn fuddugol yn ras merched blwyddyn 6. Llongyfarchiadau mawr i Ana.

**Cerddorfa**
Cafodd disgyblion CA2 berfformiad gwych gan gerddorfa Ceredigion fel rhan o'i daith "Peri Music" eleni. Roedd pawb yn mwynhau ac yn ymuno yn y canu a dawnsio efo rhai o'u hoff ganeuon poblogaidd.

**Mwydod**
Buodd dosbarth 1 yn ymweld ag arddangosfa mwydod a mwy yn yr Hen Goleg. Roedd y plant wrth eu bodd yn edrych ar yr holl fwydod gwahanol yn ein gerddi.

**Gweithdy Llythrennedd**
Cafodd plant Blwyddyn 5 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy arbennig gyda Mared Llwyd yn yr Hen Goleg, Aberystwyth. Mwynheuodd y plant yn fawr iawn.

# Tasg y Tincer



Megan

Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor. Llongyfarchiadau mawr i bawb o ardal *Y Tincer* gafodd lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd Mai. Welais i sawl wyneb cyfarwydd ar S4C! Diolch i bob un ohonoch chi fu'n lliwio llun y plant yn mwynhau darllen eu llyfr: Einion Davies, Llanilar; Anna Jên a Megan Haf Dunne, Bont-goch. A diolch i Lois Martha a Math Roberts, Bont-goch, a Maddison, Bow Street, am y lluniau bendigedig o'r wyau Pasg!


Llongyfarchiadau mawr i ti, Megan Haf – dy enw di ddaeth o'r het yn gyntaf! Mwynha dy wobr! A llongyfarchiadau hefyd i'r ddau lyfr: *Fi a Joe Allen* a *Cymru ar y Map* am ennill Gwobr Tir na n-Og eleni. Gwych!

Wyddoch chi be welais i yn harbwr Aberystwyth rai dyddiau yn ôl? Dolffiniaid yn neidio rhwng y tonnau! Ydech chi wedi gweld dolffin yn y môr, tybed? Maen nhw'n greaduriaid gosgeiddig a chlyfar dros ben. Mae 27 Gorffennaf – 4 Awst eleni yn Wythnos Genedlaethol Gwylio Morfilod a Dolffiniaid, dan y Sea Watch Foundation. Maen nhw am i ni roi gwybod iddyn nhw pan welwn ni ddolffin neu forfil yn y môr. Rhaid sbio'n ofalus iawn, cofiwch – yn aml iawn, rhyw damaid o gynffon neu drwyn sydd i'w weld rhwng y tonnau! Edrychwch ar y we am fwy o fanylion: www.seawatchfoundation.org.uk

Cyn hynny, ar ddechrau Gorffennaf, mae'n wythnos Eisteddfod Llangollen, sy'n ŵyl arbennig, ac yna ar ddechrau Awst daw wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn ardal Llanrwst. Beth bynnag fyddwch chi'n ei wneud, gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau eich gwyliau haf pan ddaw'r rheiny ymhen y mis!

Y mis hwn, beth am liwio llun y dolffin yn ymlacio yn neidio yn y tonau ym Mae Ceredigion? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1af Medi. a wela i chi fis Medi!

CYMRAEG — Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 420 | Mehefin 2019